SIR GAERFYRDDIN A CHEREDIGION

Asesiad o Lesiant Lleol



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr a Ceredigion
Carmarthenshire and Ceredigion Public Services Board

Mawrth 2027

CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol	2-3
Methodoleg: Sut Wnaethom Ddatblygu'r Asesiad	4-6
Trosolwg o Sir Gaerfyrddin a Cheredigion	7-9
Canfyddiadau Allweddol	10-46
Yr Economi, Sgiliau a Gwaith Teg	11-13
Y Boblogaeth a Newid Demograffeg	14-16
Iechyd a Llesiant	17-20
Hinsawdd, Natur a'r Amgylchedd	21-25
Tai a Seilwaith Lleol	26-28
Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol	29-32
Yr Iaith Gymraeg, Diwylliant a Hunaniaeth	33-35
Cynhwysiant Digidol, Cysylltedd a Mynediad At Wasanaethau	36-38
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	39-42
Tlodi a Chostau Byw	43-45
Tueddiadau Rhanbarthol Allweddol	46
Tueddiadau'r Dyfodol a Chysylltiadau â'r Megadueddiadau Cenedlaethol	47
Bylchau mewn Data ac Anghenion Tystiolaeth	48-49
Casgliad	50

Statws: Drafft
Cymeradwywyd gan PSB: Heb ei gymeradwyo eto
Dyddiad cyhoeddi: Heb ei gymeradwyo eto

Llun clawr: Pont Cenarth a glan yr afon ar y ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Cheredigion

CRYNODEB GWEITHREDOL

Diben yr asesiad cyfun hwn yw darparu dealltwriaeth glir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o lesiant pobl a chymunedau ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'n dwyn ynghyd ddata, ymchwil a phrofiad byw i nodi'r tueddiadau, yr heriau a'r cyfleoedd mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar y ddwy sir, nawr ac yn y tymor hir.

Drwy ganolbwyntio ar set gryno o ganfyddiadau allweddol, nod yr asesiad yw cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud penderfyniadau gwybodus a chydweithredol, ac i ddatblygu Cynllun Llesiant 2028-2033 sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol, yn cryfhau gwydnwch cymunedol, ac yn cyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mabwysiadwyd dull symlach yn y rownd hon o asesiadau ar gais y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn hygyrch, yn strategol, ac yn canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i bobl leol.

Nododd y gweithgaredd ymgysylltu a gynhaliwyd ledled Sir Gaerfyrddin a Cheredigion nifer o themâu cyson a ddaeth i'r amlwg ar draws arolygon, gweithdai rhanddeiliaid, digwyddiadau cymunedol ac ymarferion ymgysylltu wedi'u targedu. Er bod y cyfranogwyr yn cynrychioli ystod eang o oedrannau, cymunedau a diddordebau, roedd y blaenoriaethau cyffredin yn cynnwys:

- Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal
- Cefnogi pobl i heneiddio'n dda
- Tai fforddiadwy
- Trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau
- Cyfleoedd i blant a phobl ifanc
- Cysylltiad cymunedol a theimlad o berthyn
- Effaith yr argyfwng costau byw
- Diogelu'r amgylchedd naturiol

Mae cysondeb y canfyddiadau hyn yn rhoi arwydd cryf o'r materion sydd bwysicaf i gymunedau ar draws y rhanbarth, ac yn atgyfnerthu'r casgliadau a dynnwyd o'r sylfaen dystiolaeth ehangach.

Nododd dadansoddiad o'r sylfaen dystiolaeth nifer fach o faterion strategol a ddaeth i'r amlwg yn gyson ar draws y data meintiol, canfyddiadau ymgysylltu cymunedol, asesiadau statudol a dadansoddiad tueddiadau'r dyfodol. Ystyriwyd y themâu hyn ymhellach trwy'r Matrics Effaith/Sicrwydd Dyfodol i nodi'r rhai sydd fwyaf tebygol o ddylanwadu ar lesiant hirdymor ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Gyda'i gilydd, maent yn cynrychioli'r heriau a'r cyfleoedd lle mae gweithredu cydweithredol yn debygol o gael yr effaith fwyaf a darparu man cychwyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer datblygu'r Cynllun Llesiant Lleol nesaf. Rhestrir y rhain dros y ddalen.

MEYSYDD BLAENORIAETH AR DRAWS ARDAL Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

PRIF GANFYDDIAD 1

Bydd y ffordd y mae ein poblogaeth yn newid yn chwarae rhan fawr wrth lunio llesiant yn y dyfodol ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Wrth i bobl fyw'n hirach, ac wrth i fwy o bobl fyw gyda chyflyrau iechyd hirdymor, mae'n debygol y bydd y galw am wasanaethau'n cynyddu. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar y gweithlu, tai a chymunedau.

PRIF GANFYDDIAD 2

Mae byw mewn ardal wledig yn cael dylanwad mawr ar lesiant ar draws y rhanbarth.

Mae ein cymunedau gwledig yn elwa ar gysylltiadau cymunedol cryf, amgylchedd naturiol hardd ac amgylchedd o ansawdd uchel; fodd bynnag, gall pobl hefyd wynebu heriau o ran cael mynediad at drafnidiaeth, gwasanaethau, swyddi, gofal iechyd, tai fforddiadwy a chysylltiadau digidol dibynadwy.

PRIF GANFYDDIAD 3

Mae cael economi gref a gwydn yn hanfodol ar gyfer ein llesiant yn y dyfodol.

Mae costau byw cynyddol, tai fforddiadwy, prinder gweithwyr a bylchau mewn sgiliau i gyd yn rhoi pwysau ar ein cymunedau, ac yn effeithio ar iechyd, cyllid ac ansawdd bywyd pobl.

PRIF GANFYDDIAD 4

Mae lleihau anghydraddoldeb yn parhau i fod yn her fawr.

Gall profiadau a chyfleoedd pobl amrywio'n fawr yn dibynnu ar eu hincwm, eu hiechyd, eu tai, eu mynediad at wasanaethau ac amgylchiadau eraill.

PRIF GANFYDDIAD 5

Bydd newid hinsawdd a gwydnwch amgylcheddol yn cael effaith gynyddol ar ddyfodol ein rhanbarth.

Mae ein cymunedau'n wynebu risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, tywydd eithafol a cholli natur a bywyd gwyllt. Ar yr un pryd, mae cyfleoedd i adfer natur, datblygu mewn ffordd fwy cynaliadwy a symud tuag at ddyfodol carbon isel.

PRIF GANFYDDIAD 6

Mae ein cymunedau cryf, ein diwylliant a'r iaith Gymraeg ymhlith cryfderau mwyaf y rhanbarth.

Mae pobl yn cymryd rhan yn eu cymunedau, yn teimlo'n ddiogel, yn dathlu ein treftadaeth a'n hiaith, ac yn meddu ar ymdeimlad cryf o hunaniaeth leol – mae'r pethau hyn i gyd yn cefnogi llesiant ac yn ein helpu i wynebu heriau'r dyfodol gyda'n gilydd.

METHODOLEG: SUT WNAETHOM DDATBLYGU'R ASESIAD

Mae'r Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio dull ar y cyd sy'n cyfuno **gwahanol ddulliau**; mae hyn yn adlewyrchu uno ffurfiol y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac yn cefnogi datblygiad Cynllun Llesiant Lleol ar y cyd.

Trefniadau Gweithio ar y Cyd

Mabwysiadodd y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus **un fethodoleg, cynllun ymgysylltu ac asesiad integredig**, gan nodi newid sylweddol o'r dulliau annibynnol blaenorol.

Mae'r ddau awdurdod lleol yn arwain y gwaith cyflawni, gyda chefnogaeth partneriaid y BGC drwy ddau grŵp allweddol: **Grŵp Ysgrifennwr** (sy'n gyfrifol am gasglu, dadansoddi a drafftio data) a **Grŵp Ymgysylltu ac Ymgynghori** (sy'n gyfrifol am ddylunio a chyflawni'r ymgyrch ymgysylltu).

Mae'r dull yn hyrwyddo **cydweithio, adnoddau a rennir a llai o ddyblygu**, tra hefyd yn cyd-fynd â phartneriaid rhanbarthol, gan gynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus cyfagos. Mae cyfranogiad arweinwyr data ac ymgysylltu pob sefydliad partner wedi bod o fudd sylweddol, gan ddarparu cyfoeth o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau, a thrwy hynny alluogi'r Asesiad i adeiladu'n wirioneddol ar asesiadau ac ymchwil blaenorol.

Ffynonellau Data a Dull Dadansoddol

Mae'r fethodoleg yn seiliedig ar **fframwaith cadarn o ddulliau cymysg**, sy'n cyfuno:

- **Data meintiol** o ffynonellau cenedlaethol a lleol (e.e. StatsWales, ONS, Iechyd Cyhoeddus Cymru, setiau data WLGA a data gan bartneriaid)
- **Tystiolaeth ansoddol** o ymchwil polisi, darparwyr gwasanaethau a mewnwelediadau gan bartneriaid
- **Data ymgysylltu sylfaenol** a gasglwyd drwy'r Arolwg Lles Rhanbarthol ac amrywiaeth o ymgysylltiadau â rhanddeiliaid.

Cynhelir dadansoddiad mewn tair cam:

1. **Dadansoddiad o'r Sefyllfa** (adolygu data a nodi tueddiadau)
2. **Dadansoddiad o'r Ymateb** (archwilio achosion a ffactorau sylfaenol)
3. **Dadansoddiad Cryno** (integreiddio canfyddiadau i nodi blaenoriaethau allweddol)

Sylfaen Dystiolaeth a Mynediad at Ddata Ategol

Mae'r Asesiad yn seiliedig ar **sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr** ac yn defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael ar adeg ei gyhoeddi. Er mwyn sicrhau bod yr Asesiad yn fwy syml ac hygyrch, nid yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi ailgynhyrchu yr ystod lawn o setiau data a dadansoddiadau sylfaenol yn y ddogfen. Yn hytrach, mae Atodiad 1 yn darparu **dolenni i'r dystiolaeth ategol a ffynonellau data byw**, gan alluogi defnyddwyr i archwilio tueddiadau a chanlyniadau llesiant yn fanylach. Fel rhan o'i gamau nesaf, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried ymarferoldeb datblygu cyfres o ddangosfyrddau llesiant, er mwyn hwyluso mynediad

parhaus at ddata a thystiolaeth rhwng cylchoedd asesu. Er mwyn rhoi darlun cytbwys o gyflwr llesiant, mae'r Bwrdd wedi nodi ei asedau a'i gyfleoedd allweddol, yn ogystal â'r heriau sy'n bodoli.

Profiad Bywyd a Llais y Gymuned

Mae ymgysylltu yn **elfen ganolog** o'r fethodoleg, gan sicrhau bod profiad bywyd yn llywio'r asesiad. Casglodd ymgyrch ymgysylltu ranbarthol (haf 2026) farnau gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys preswylwyr, grwpiau cymunedol, busnesau a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Defnyddiwyd dulliau hygyrch (ar-lein, papur a dros y ffôn) i sicrhau cyfranogiad cynhwysol, gyda phwyslais penodol ar **gyrraedd grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd anaml yn cael eu clywed**. Roedd yr ymgynghoriad ar y drafft o'r asesiad (gaeaf 2026/27) yn cynnig cyfle pellach i ddilysu'r canfyddiadau a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau.

Rôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r fethodoleg wedi'i **llunio'n benodol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, sy'n sail i bwrpas ac i ddull gweithredu'r asesiad. Mae'r gwaith yn cyd-fynd â'r **saith nod llesiant** a'r **egwyddor datblygu cynaliadwy**, gan roi pwyslais ar feddwl hirdymor, atal, cydweithio ac ymgysylltu. Adlewyrchir hyn drwy ddefnyddio **dull thematig**, ymgorffori tueddiadau'r dyfodol, a defnyddio tystiolaeth yn barhaus i lywio gwelliant parhaus.

Asesu Tueddiadau'r Dyfodol

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) wedi ymgorffori meddwl hirdymor wrth asesu llesiant lleol a'r ffactorau sy'n gyrru newid hirdymor. Mae wedi defnyddio Matrics Effaith/Sicrwydd y Dyfodol (sy'n seiliedig ar Becyn Cymorth y Dyfodol Llywodraeth y DU) i asesu'r themâu a nodwyd yn yr asesiad, ac i helpu i bennu'r camau nesaf y dylai'r Bwrdd eu hystyried. Mae'r matrics yn dosbarthu'r themâu a'r tueddiadau dyfodol a nodwyd yn seiliedig ar ddau ddimensiwn:

- **Effaith:** Graddau'r effaith y bydd y duedd yn ei chael ar lesiant lleol (Uchel yn erbyn Isel).
- **Sicrwydd:** Pa mor hyderus yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y bydd y duedd yn digwydd mewn gwirionedd (Uchel yn erbyn Isel).

Er mwyn mireinio'r canfyddiadau ymhellach, defnyddiwyd lens cydweithredol wrth ystyried y **materion allweddol** y mae angen i ni **flaenoriaethu a gweithredu** arnynt. Galluogodd hyn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i nodi'r materion allweddol a fydd yn elwa o weithio ar y cyd, ac a fydd yn ffurfio sail y Cynllun Lles Lleol nesaf. Dangosir y dull hwn yn y diagram ar y dudalen nesaf. Mae'r cysylltiadau rhwng y canfyddiadau ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion a'r megadueddiadau cenedlaethol ehangach i'w gweld ar dudalen 47.



Lens Cydweithredol

Blaenoriaethu a gweithredu

Cynllunio senarios









Parcio

Tracio

Blaenoriaethu a Gweithredu: Dull Cydweithredol

Cyfyngiadau a Bylchau yn y Data

Mae'r fethodoleg yn cydnabod nifer o **gyfyngiadau a risgiau** sy'n gysylltiedig â'r dull ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys **anghydbwysedd data posibl rhwng y ddwy sir**, cyfyngiadau ar **argaeledd data ar gyfer ardaloedd bach**, a **chyfyngiadau samplu** posibl o fewn gweithgaredd ymgysylltu.

Mae heriau sylweddol hefyd wrth gydbwyso **asesiad symlach â manylder llai** ar draws daearyddiaeth fwy, wedi'i chyfuno.

Er mwyn sicrhau tryloywder, mae'r asesiad terfynol yn nodi **bylchau a chyfyngiadau data** yn glir, gan helpu i lywio ymchwil yn y dyfodol a datblygiad parhaus y sylfaen dystiolaeth, (gweler tudalen 48).

Cefnogir yr Asesiad gan gyfres o **ddogfennau atodol** sy'n ymestyn y wybodaeth sydd yn yr Asesiad ac yn **rhoi cipolwg ychwanegol ar y casgliadau a dynnwyd** drwy gydol yr Asesiad. Rhain yw:

- Atodiad 1: Dolenni i'r Ffynonellau Data a Data Byw
- Atodiad 2: Proffiliau Ardaloedd Cymunedol
- Atodiad 3: Canlyniadau'r Ymgyrch Ymgysylltu
- Atodiad 4: Astudiaethau Achos a Phrofiadau Bywyd
- Atodiad 5: Dangosyddion Cenedlaethol
- Atodiad 6: Methodoleg

Mae ardal gyfunol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn cwmpasu llawer o Orllewin Cymru, gan ymestyn o'r Mynyddoedd Cambria yn y dwyrain i arfordir Bae Aberteifi a Bae Caerfyrddin yn y gorllewin a'r de. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy sir yn cwmpasu daearyddiaeth amrywiol ac unigryw o dir amaethyddol, tirweddau ucheldir, dyffrynnoedd afonydd, coetiroedd, arfordiroedd a threfi marchnad. Er eu bod yn amrywio o ran maint a phatrwm anheddu, mae'r ddwy sir yn rhannu cymeriad gwledig cryf, asedau naturiol cyfoethog ac ymdeimlad dwfn o le.

Gyda phoblogaeth gyfunol o tua 267,000 o bobl, nodweddir yr ardal gan gymunedau gwasgaredig, dwysedd poblogaeth isel a rhwydwaith o drefi, pentrefi ac aneddiadau gwledig. Sir Gaerfyrddin yw'r sir fwyaf a mwyaf poblog o'r ddwy sir, gyda chanolfannau trefol allweddol gan gynnwys Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman, tra bod poblogaeth Ceredigion wedi'i chanoli o amgylch Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, mae'r ddwy sir yn wynebu cyfleoedd a heriau tebyg sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau a chefnogi cymunedau ar draws ardaloedd gwledig mawr.

Mae'r amgylchedd naturiol yn un o gryfderau mwyaf yr ardal ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at lesiant, hunaniaeth a'r economi. Mae'r rhanbarth yn cynnwys tirweddau a chynefinoedd sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol a gwlypdiroedd o arwyddocâd rhyngwladol. Mae'r arfordir yn ymestyn am fwy na 180 cilomedr ac mae'n cynnwys dynodiadau Arfordir Treftadaeth, traethau tywodlyd, aberoedd a chynefinoedd morol pwysig. Mae'r tirweddau hyn yn cefnogi bioamrywiaeth, yn darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth, ac yn cyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae economi'r ardal wedi'i chysylltu'n agos â'i hasedau naturiol a diwylliannol. Mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn nodwedd ddiffiniol o'r ddwy sir ac yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth lunio cymunedau, tirweddau a chyflogaeth leol. Mae twristiaeth hefyd yn sector economaidd arwyddocaol, wedi'i gefnogi gan harddwch naturiol yr ardal, arfordir, atyniadau treftadaeth a chyfleoedd hamdden awyr agored. Ochr yn ochr â'r cryfderau traddodiadol hyn, mae'r ddwy sir yn ceisio datblygu economïau mwy amrywiol a chynaliadwy, gan gynnwys twf yn yr economi wybodaeth, ynni adnewyddadwy, diwydiannau gwyrdd ac arloesedd. Mae Ceredigion yn gartref i Brifysgol Aberystwyth a sawl sefydliad cenedlaethol, tra bod Sir Gaerfyrddin yn elwa o'i lleoliad strategol o fewn rhanbarth Bae Abertawe a chysylltiadau cryf ag awdurdodau cyfagos. Ar draws y ddwy sir, mae busnesau bach a micro yn ffurfio asgwrn cefn yr economi leol, gan gyfrannu at fenter, arloesedd a chydnerthedd cymunedol.

Mae gan yr ardal hunaniaeth ddiwylliannol gref sydd wedi'i gwreiddio yn yr iaith Gymraeg, treftadaeth a bywyd cymunedol. Mae'r ddwy sir yn cael eu cydnabod fel cadarnleoedd pwysig i'r iaith Gymraeg, gyda dros draean o'r trigolion yn gallu siarad Cymraeg. Mae ysgolion, sefydliadau cymunedol a chyrff cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi trosglwyddo'r iaith Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd. Mae diogelu a chryfhau'r iaith yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn lleol ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at lesiant diwylliannol hirdymor yr ardal.

Mae cymunedau ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn elwa ar lefelau uchel o gyfalaf cymdeithasol, gwirfoddoli ac ymgysylltu cymunedol. Yn aml, mae pobl leol yn sôn am gysylltiadau cryf â'r lleoliad a synnwyr cryf o berthyn. Fodd bynnag, gall natur wledig yr ardaloedd hefyd gyflwyno heriau. Gall mynediad at wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd

digidol amrywio'n sylweddol o un lle i'r llall, yn enwedig mewn ardaloedd mwy anghysbell. Mae sicrhau bod pob cymuned yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r canolfannau trefol hefyd yn wynebu heriau, yn enwedig yn y trefi ôl-ddiwydiannol yn Llanelli, Dyffryn Gwendraeth a Dyffryn Aman yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ardaloedd hyn, a fu unwaith yn ganolfannau ar gyfer cynhyrchu tun, dur a glo caled, wedi gweld rhai o'r trawsnewidiadau cymdeithasol-economaidd mwyaf dwys yn hanes Cymru fodern, ac maent yn parhau i brofi anactifedd economaidd, tangyflogaeth a phrinder swyddi.

Fel llawer o Gymru, mae'r ardal yn profi newid demograffig sylweddol. Mae poblogaeth sy'n heneiddio, strwythurau aelwydydd sy'n newid a phatrymau mudo yn cynyddu'r galw am wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth cymunedol. Ar yr un pryd, mae denu a chadw pobl iau a thrigolion o oedran gweithio yn parhau i fod yn bwysig ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor cymunedau a'r economi leol. Felly mae'r ddwy sir yn ceisio creu lleoedd lle gall pobl o bob oed fyw, gweithio a ffynnu.

Er gwaethaf llawer o gryfderau, mae anghydraddoldebau'n parhau ar draws yr ardal. Er bod rhannau helaeth o Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn profi lefelau cymharol dda o lesiant, mae rhai cymunedau'n wynebu heriau sy'n gysylltiedig â thlodi, fforddiadwyedd tai, anghydraddoldebau iechyd a mynediad at wasanaethau. Gall y materion hyn fod yn arbennig o gymhleth mewn ardaloedd gwledig lle gall amddifadedd fod yn llai gweladwy ond gall ddal i gael effaith sylweddol ar unigolion a theuluoedd. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a sicrhau y gall pawb elwa o gyfleoedd lleol yn parhau i fod yn nod canolog i wasanaethau cyhoeddus.

Mae newid hinsawdd ac adfer natur yn ystyriaethau sy'n dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer dyfodol yr ardal. Mae'r ddwy sir eisoes yn profi effeithiau newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd, newidiadau ar yr arfordir a digwyddiadau tywydd eithafol sy'n digwydd yn amlach. Ar yr un pryd, mae cyfleoedd sylweddol i feithrin gwydnwch trwy adfer cynefinoedd, rheoli tir yn gynaliadwy, ynni adnewyddadwy a'r newid i economi carbon isel. Bydd diogelu a gwella asedau naturiol yr ardal yn hollbwysig i gefnogi llesiant nid yn unig y genhedlaeth bresennol, ond cenedlaethau'r dyfodol hefyd.

Mae'r nodweddion, yr heriau a'r dyheadau a rennir gan Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn darparu sylfaen gref ar gyfer cydweithio. Er bod gan bob sir ei hunaniaeth unigryw ei hun, gyda'i gilydd maent yn ffurfio rhanbarth sydd â diddordebau cyffredin o ran cefnogi cymunedau gwydn, economi gynaliadwy, iaith a diwylliant Cymraeg ffyniannus, ac amgylchedd naturiol iach. Felly, mae'r Asesiad hwn o Lesiant Lleol yn ystyried yr ardal ar y cyd, gan gydnabod amrywiaeth y lleoedd lleol yn ogystal â'r cyfleoedd y gellir eu cyflawni trwy weithio mewn partneriaeth ar draws ardal newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi'i huno.

Mae chwe ardal gymunedol ledled Sir Gaerfyrddin, yn seiliedig ar Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch, a naw ardal gymunedol ledled Ceredigion, sy'n seiliedig ar Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol. Mae'r mapiau dros y dudalen yn dangos yr Ardaloedd Cymunedol a nodwyd ar draws rhanbarth y BGC, tra bod y Proffiliau Ardal sydd ynghlwm fel Atodiad 2 yn tynnu sylw at y materion allweddol sy'n effeithio ar yr ardaloedd ac unrhyw debygrwydd a gwahaniaeth sylweddol rhyngddynt.

ARDALOEDD CYMUNEDOL AR DRAWS ARDAL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (BGC) SIR GAERFYRDDIN A CHEREDIGION


SIR GAERFYRDDIN

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA)

001 Llanfihangel-Ar-Arth a Llanybydder
002 Cynwyl Gaeo, Cilycwm a Llanymddyfri
003 Cenarth, Llangeler a Trelech
004 Llandeilo, Llangadog, a Manordeilo a Salem
005 Abergwili, Llanegwad a Llanfihangel Aberbythych
006 Gorllewin Tref Caerfyrddin a Cynwyl Elfed
007 Gogledd Tref Caerfyrddin
008 De Tref Caerfyrddin a Llangunnor
010 Garnant, Glanaman a Cwarter Bach
011 Llandybie a Saron
012 Llangyndeyrn, Llanddarog a Llanismel
013 Rhydaman, Betws a Pontamman
015 Llannon a Penygroes
016 Glyn, Gorslas a Pontyberem
017 Hendy a Tycroes
018 Trimsaran a Cydweli
019 Llangennech a Swiss Valley
020 Dafen a Felinfoel
021 Porth Tywyn a Pen-bre
022 Lliedi
023 Elli a Hengoed
024 Bigyn
025 Bynea a Llwynhendy
026 Glanymor a Tyisha
027 Llanboidy, Llansteffan a Talacharn

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch (USOA)

- Ardal Gymunedol 1
- Ardal Gymunedol 2
- Ardal Gymunedol 3
- Ardal Gymunedol 4
- Ardal Gymunedol 5
- Ardal Gymunedol 6




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans AC0000810849
© Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey AC0000810849

CEREDIGION

Ardaloedd Cymunedol /Adraloedd Cynnyrch Ehangach Haen Canol

- Aberaeron & Llanrhystud
- Beulah, Troed-yr-aur & Llandysul
- Borth & Bont-goch
- Rheidol, Ystwyth & Caron
- Aberteifi & Aberporth
- Cei Newydd & Penbryn
- De Aberystwyth
- Gogledd Aberystwyth
- Llanbedr Pont Steffan & Llanfihangel Ystrad



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100024419
© Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100024419

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, **mae'r adran hon yn canolbwyntio ar set gryno o'r materion pwysicaf** sy'n llunio lles nawr ac yn y dyfodol. Yn hytrach na rhoi cyfrif cynhwysfawr o bob pwynt data neu faes pwnc, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y tueddiadau, y pwysau, y cryfderau a'r cyfleoedd sydd bwysicaf ar gyfer lles hirdymor ac sy'n gofyn am weithredu ar y cyd.

Mae pob thema'n dwyn ynghyd dystiolaeth feintiol, mewnwelediad cymunedol a dealltwriaeth broffesiynol i ddarparu darlun clir a chytbwys o'r hyn sy'n newid ar draws y ddwy sir a beth mae hyn yn ei olygu i lesiant pobl, lleoedd a gwasanaethau. Mae'r canfyddiadau hyn yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer y Cynllun Llesiant nesaf a byddant yn tywys y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth osod blaenoriaethau sy'n gyraeddadwy ac yn ystyrlon i gymunedau lleol.

Nid yw'r heriau a'r cyfleoedd llesiant sy'n wynebu Sir Gaerfyrddin a Cheredigion bob amser yn eistedd yn daclus o fewn meysydd polisi sengl neu gymunedau unigol. Yn lle hynny, mae nifer o **themâu trawsbynciol** yn llunio bywydau pobl yn gyson ar draws y ddwy sir, gan ddylanwadu ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol mewn ffyrdd cydgysylltiedig.

Mae'r themâu hyn wedi'u hamlygu ochr yn ochr â'r cryfderau a'r heriau. Mae nodi themâu trawsbynciol yn helpu i amlygu lle **gall gweithredu ar y cyd, dysgu a rennir a chydweithio rhanbarthol** gael yr effaith fwyaf. Maent hefyd yn darparu lens i ddeall anghydraddoldebau, rhagweld ein pwysau yn y dyfodol, a dylunio gwasanaethau sy'n gweithio'n effeithiol ar gyfer cymunedau amrywiol a gwasgaredig.

THEMA 1: YR ECONOMI, SGILIAU A GWAITH TEG

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae economi gref, cynhwysol a gwydn yn hanfodol ar gyfer lles dros y tymor hir. Mae cael mynediad i waith teg, cyflogau da a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn galluogi pobl i ffynnu, mae'n cynorthwyo cynaliadwyedd cymunedol, ac mae'n cynnig sylfaen ar gyfer y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae deall y cryfderau a'r heriau economaidd ar draws Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn hanfodol ar gyfer siapio buddsoddiad yn y dyfodol, cynorthwyo busnesau lleol, a sicrhau bod pobl o bob oed yn gallu manteisio ar gyflogaeth ystyrlon.

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

- Mae'r ddwy sir yn cynnwys cyfran uchel o **fusnesau bychain a micro**, yn enwedig ym maes amaethyddiaeth, twristiaeth, manwerthu, a gofal, sy'n creu economi amrywiol, ond y mae'n aml yn un lle y mae'r cyflogau a gynigir yn isel.
- **Mae lefelau cynhyrchiant yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyfartalog yn y DU**, gan adlewyrchu heriau strwythurol megis gwledigrwydd, cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig, a chyfansoddiad sectorol.
- Mae **prinder sgiliau** yn dod i'r amlwg mewn sectorau allweddol gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, adeiladu, digidol a pheirianneg.
- Mae'r enillion cyfartalog **yn is na'r enillion cyfartalog yng Nghymru a'r DU**, ac mae nifer o aelwydydd yn wynebu tlodi mewn gwaith neu gyflogaeth heb ddiogelwch.
- Mae cysylltedd digidol yn gwella, ond mae'n parhau i fod yn **anwastad**, gan gyfyngu ar y cyfleoedd i weithio o bell a thyfu busnesau mewn rhai ardaloedd gwledig.
- **Mae gofal plant yn elfen allweddol o'r economi leol**, gan alluogi rhieni a gofalwyr i gymryd rhan mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Fodd bynnag, gall cost gofal plant a darpariaeth gofal plant annigonol weithredu fel rhwystr i gyfranogiad yn y farchnad lafur ac i dwf economaidd.
- Mae **heriau recriwtio a chadw pobl** yn y gweithlu gofal plant yn effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y ddwy sir, wrth i ddarparwyr adrodd am anawsterau wrth geisio denu a chadw staff sy'n meddu ar gymwysterau addas, yn enwedig ymarferwyr sy'n gallu siarad Cymraeg.

Beth ddywedodd cymunedau wrthym

- Nodwyd **cyfleoedd cyflogaeth da** yn gyson fel yr agwedd bwysicaf ar les economaidd, yn enwedig cyfleoedd sy'n galluogi pobl i **ddatblygu gyrfaoedd yn lleol**.
- Amlygodd pobl ifanc bwysigrwydd meithrin **sgiliau, cyfleoedd hyfforddiant a chael mynediad i swyddi lleol** sy'n caniatáu iddynt aros yn eu cymunedau.
- Nododd preswylwyr **bod trafnidiaeth a chysylltedd** yn ffactorau pwysig sy'n effeithio ar **fynediad i gyflogaeth, addysg a chyfleoedd economaidd**, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Pwysleisiodd cymunedau bwysigrwydd **cynorthwyo busnesau lleol**, cryfhau **cadwyni cyflenwi lleol** a buddsoddi yn yr **economi sylfaenol**.
- Amlygodd rhanddeiliaid gyfleoedd sy'n gysylltiedig â **swyddi gwyrdd, cynhyrchu bwyd yn lleol, ynni adnewyddadwy a sectorau sy'n dod i'r amlwg** ac sy'n gallu cynorthwyo gwydnwch economaidd yn y dyfodol.

Anghydraddoldebau allweddol

- Mae pobl sy'n byw mewn cymunedau mwy difreintiedig yn wynebu mwy o **rwystrau wrth geisio sicrhau cyflogaeth**, gan gynnwys trafnidiaeth, gofal plant a mynediad digidol.

- Efallai y bydd preswylwyr gwledig yn cael llai o gyfleoedd i fanteisio ar hyfforddiant, prentisiaethau a gwaith y mae gofyn cael sgiliau ar lefel uwch i'w gyflawni.
- Mae menywod, pobl anabl a gofalwyr yn fwy tebygol o fod yn gwneud **gwaith rhan-amser, gwaith lle y telir cyflog isel am ei gyflawni**, **neu waith heb ddiogelwch**.
- Mae pobl ifanc o aelwydydd incwm isel yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth fanteisio ar addysg uwch neu lwybrau cyflogaeth medrus.

Pwysau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Mae Cytundeb **Dinas Bae Abertawe a Chytundeb Twf Canolbarth Cymru** yn cynnig cyfle i greu swyddi newydd, gwella cynhyrchiant, a sicrhau buddsoddiad sylweddol yn yr economi leol.
- Bydd y newid i **economi carbon isel** yn creu cyfleoedd newydd ym meysydd ynni adnewyddadwy, adeiladu, a rheoli tir.
- Gallai gweithio o bell a gweithio hybrid ddenu trigolion a busnesau newydd, ond dim ond os bydd y seilwaith digidol yn parhau i wella.
- Gallai awtomeiddio a newid technolegol ail-lunio marchnadoedd llafur lleol, gan olygu bod angen **uwchsgilio a dysgu gydol oes**.
- Gallai costau byw a chostau rhedeg busnes sy'n codi roi pwysau ar aelwydydd a busnesau bach, ond gallent hefyd ysgogi arloesedd ac arallgyfeirio.

Ein canfyddiadau allweddol ar gyfer y thema hon

Cryfderau

- Ceir potensial sylweddol i sicrhau twf ym maes ynni **adnewyddadwy, diwydiannau digidol, a'r economi sylfaenol**, ond mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad wedi'i gydlynu.
- Mae **buddsoddiad arwyddocaol** trwy gyfrwng Bargen Dinas Bae Abertawe (£1.3b) a Bargen Twf Canolbarth Cymru (£110m) yn cynnig y cyfle i sicrhau cynnydd sylweddol o ran cynhyrchiant, creu swyddi a denu buddsoddiad ychwanegol dros y ddegawd nesaf.
- Mae **gweithgarwch economaidd** yn y ddwy sir yn uwch na'r lefel genedlaethol gyfartalog.
- Mae **strategaethau economaidd hirdymor** clir yn eu lle er mwyn siapio dyfodol economaidd y rhanbarth.

Heriau

- Mae'r economi leol yn amrywiol, ond fe'i nodweddir gan **gyflogau is, cynhyrchiant is**, a **dibyniaeth uchel ar fusnesau bychain**.
- Mae **prinder sgiliau** yn dod i'r amlwg ar draws sectorau lluosog, gan gyfyngu ar dwf a chan roi pwysau ar wasanaethau hanfodol.
- Mae pobl ifanc yn wynebu **cyfleoedd lleol cyfyngedig**, sy'n cyfrannu at fudo o'r ardal a heriau hirdymor o ran y gweithlu.
- Mae anghydraddoldebau economaidd yn parhau, ac mae **trafnidiaeth, mynediad digidol, a gofal plant** yn rhwystrau mawr wrth geisio sicrhau gwaith teg.
- Bydd gwella cysylltedd digidol, cysylltiadau trafnidiaeth a mynediad i ddatblygiad sgiliau yn hollbwysig er mwyn creu **economi wydn sy'n barod ar gyfer y dyfodol**.

Themâu trawsbynciol

- **Cynaliadwyedd economaidd a ffyniant lleol**: Mae'r ddwy sir yn wynebu heriau mewn perthynas â chyflogau isel, cyflogaeth dymhorol, pobl ifanc yn mudo o'r ardal, a dibyniaeth ar fusnesau bychain.
- **Gwydnwch cymunedol ac unigol**: Mae'r ddwy sir yn nodi gwydnwch fel thema graidd – economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Yr Economi, Sgiliau a Gwaith Teg

STRWYTHUR BUSNES ARDAL Y BGC

91.6% **Micro-fusnesau**
Uwch na Cymru a'r DU (89%)

7.0% **Busnesau bach**
Is na Cymru a'r DU (9%)

(2024)

GWAITH RHAN AMSER

+5.1 pwynt canran **Ceredigion**

+0.8 pwynt canran **Sir Caerfyrddin**
uwch na chyfartaledd Cymru (34.9%)

(2024)

HUNAN-GYFLOGAETH

+7.1 pwynt canran **Ceredigion**

+0.1 pwynt canran **Sir Caerfyrddin**
i gymharu a chyfartaledd Cymru (8.0%)

(Ebrill 2025-Mawrth 2026)

BUDDSODDIAD

£1.3bn
Bargen Ddinesig Bae Abertawe

£110m
Bargen Dwf Canolbarth Cymru

ALLBWN ECONOMAIDD Y BGC

Mae GVA y pen yn tyfu, ond yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru

-£3,054 yn is na chyfartaledd Cymru

(2023)

CYFRADD CYFLOGAETH

75.5% **Sir Caerfyrddin**
+3.4 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru (72.1%)

71.8% **Ceredigion**
-0.3 pwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru (72.1%)

(Ebrill 2025-Mawrth 2026)

ENILLION CANOLRIFOL

Mae enillion canolrifol i weithwyr llawn amser yn is na chyfartaledd Cymru

Sir Caerfyrddin: **£4,106** is

Ceredigion: **£1,051** is

(2025)

Mae mwy nag 1 o bob 3 aelwyd yn ardal y BGC yn byw mewn tlodi incwm cymharol

34.6%

33.5% ar draws Cymru

28.2% ar draws y DU

(2025)

Nodweddir y rhanbarth gan sylfaen gref o **ficro-fusnesau**, **GVA sy'n tyfu**, a **lefelau cyflogaeth cymharol uchel**. Fodd bynnag, **mae cynhyrchiant ac enillion is**, ynghyd â lefelau uchel o **dlodi incwm cymharol**, yn parhau i fod yn heriau allweddol. Mae buddsoddiad sylweddol trwy **Fargen Dinas Bae Abertawe** a **Bargen Twf Canolbarth Cymru**, yn **ogystal â buddsoddiad parhaus**, yn cynnig cyfleoedd i **gefnogi twf economaidd yn y dyfodol**.

THEMA 2: Y BOBLOGAETH A NEWID DEMOGRAFFEG

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae newid i'r boblogaeth yn siapio pob agwedd ar les lleol. Mae'n effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, gweithlu y dyfodol, cydnerthedd cymunedau, a bywiogrwydd economaidd a diwylliannol y ddwy sir dros y tymor hir. Mae deall tueddiadau demograffig yn hanfodol ar gyfer cynllunio gwasanaethau iechyd a gofal, addysg, tai, trafnidiaeth a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

- Mae'r ddwy sir yn parhau i weld **poblogaethau sy'n heneiddio**, gyda chyfran gynyddol o breswylwyr 65+ oed, a chynnydd rhagamcanol o ran y rhai 85+ oed dros yr 20 mlynedd nesaf.
- Mae **poblogaethau oedran gwaith** yn lleihau, a chaiff hyn ei ysgogi gan y ffaith bod oedolion ifanc yn symud o'r ardal, a chyfraddau geni is.
- **Mae pobl yn symud i'r ardal** o rannau eraill o'r DU yn cyfrannu at sefydlogrwydd y boblogaeth, ond mae hyn yn tueddu i fod yn grwpiau oedran hŷn neu bobl sy'n chwilio am ffyrdd o fyw gwledig, yn hytrach na gweithwyr iau.
- Mae rhai cymunedau **yn wynebu lleihad o ran maint y boblogaeth**, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig ac sydd ar y cyrion.
- **Mae maint aelwydydd yn lleihau**, gan gynyddu'r pwysau ar gyflenwad tai hyd yn oed pan fo'r twf ym maint y boblogaeth yn gymharol fach.

Beth ddywedodd cymunedau wrthym

- Mynegwyd pryderon gan breswylwyr am **boblogaeth sy'n heneiddio ac am argaeledd gwasanaethau iechyd, gofal a chymorth yn y dyfodol**.
- Amlygodd nifer o bobl bwysigrwydd **aros yn annibynnol wrth iddynt** fynd yn hŷn a gallu **parhau i fyw yn eu cymuned**.
- Mynegwyd pryderon am y ffaith bod **pobl iau yn gadael yr ardal** oherwydd **cyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig, fforddiadwyedd tai** a **mynediad i wasanaethau.**
- Pwysleisiodd cymunedau bwysigrwydd cynnal **cysylltiadau cymdeithasol cadarn** a **lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd,** yn enwedig i breswylwyr hŷn.
- Amlygodd ymatebwyr **yr angen am dai, trafnidiaeth a gwasanaethau cymunedol sy'n adlewyrchu anghenion demograffig sy'n newid.**

Anghydraddoldebau allweddol

- Mae **cymunedau gwledig** yn wynebu mwy o heriau wrth fanteisio ar wasanaethau wrth i'r boblogaeth heneiddio.
- Mae **pobl iau a theuluoedd** yn wynebu rhwystrau wrth fanteisio ar dai fforddiadwy a chyflogaeth ddiogel.
- Mae **pobl hŷn mewn ardaloedd anghysbell** yn fwy agored i niwed gan unigrwydd, eithrio digidol a rhwystrau trafnidiaeth.
- Gallai **cymunedau sy'n siarad Cymraeg** gael eu heffeithio mewn ffordd anghymesur gan batrymau mudo i'r ardal.

Pwysau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Bydd y **galw am iechyd a gofal cymdeithasol** yn cynyddu'n sylweddol wrth i'r boblogaeth heneiddio.
- Gallai **prinder yn y gweithlu** ddwysáu ar draws sectorau allweddol, gan gynnwys gofal, addysg a gwasanaethau lleol.
- Mae cyfleoedd yn bodoli i ddenu **gweithwyr o bell a busnesau newydd** os bydd cysylltedd digidol yn parhau i wella.
- Gallai newid demograffig gynorthwyo arloesedd ym maes **tai, gofal cymunedol a mentrau pontio'r cenedlaethau.**

Ein canfyddiadau allweddol ar gyfer y thema hon

Cryfderau

- Mae newid demograffig yn cynnig **cyfleoedd ar gyfer modelau newydd i ddarparu gwasanaethau**, arloesi digidol, a datrysiadau dan arweiniad y gymuned.
- **Rhagwelir twf bach ym maint poblogaeth** Sir Gaerfyrddin a Cheredigion dros y deng mlynedd nesaf, a gaiff ei ysgogi yn bennaf gan bobl yn mudo i'r ardal, yn hytrach na thwf naturiol.

Heriau

- Mae'r ddwy sir yn wynebu **heriau demograffig arwyddocaol a hirdymor**, yn enwedig poblogaethau sy'n heneiddio a charfannau oedran gwaith sy'n lleihau.
- Mae'n debygol y bydd y tueddiadau hyn yn rhoi **pwysau cynyddol ar iechyd, gofal a gwasanaethau cymunedol**, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Mae **pobl ifanc yn gadael** i gael addysg, cyflogaeth a chyfleoedd cymdeithasol, sy'n cyfyngu ar wydnwch y gweithlu yn y dyfodol.
- Mae **fforddiadwyedd ac argaeledd tai** yn ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar gadw'r boblogaeth a denu poblogaeth.
- Bydd cynaliadwyedd yr **iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol** yn dibynnu ar y ffordd y caiff newidiadau demograffig eu rheoli.

Themâu trawsbynciol


- **Poblogaeth sy'n heneiddio a newid demograffig** – Mae'r ddwy sir yn cynnwys poblogaethau sy'n hŷn na'r boblogaeth gyfartalog, ac mae hyn yn effeithio ar iechyd, y galw am ofal, tai, trafnidiaeth a chydlyniant cymunedol.
- **Cysylltiadau cymdeithasol a lleihau arwahanrwydd** – Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn fater mawr mewn siroedd gwledig sy'n cynnwys poblogaethau sy'n heneiddio.

Y Boblogaeth a Newid Demograffeg

Y boblogaeth wedi cynyddu

2.3%

ers 2018



25% o Ardaloedd Llesiant wedi gweld gostyngiad yn y boblogaeth *(2022-2024)*

Dros **1** ym hob **4** preswylydd dros 65+ *(26.0%)*



Ers 2018 y poblogaeth 65+:

+2.2 pwynt canran (+7,105 preswylydd)

Rhagwelir bod y boblogaeth oedran gwaith yn mynd i ostwng



58.2%
2026

55.8%
2046

-2.9 pwynt canran

Rhagwelir bod y boblogaeth 65+ yn mynd i gynyddu gan:



+3.9 pwynt canran

Rhagwelir bod y boblogaeth 85+ yn mynd i gynyddu gan:

+2.5 pwynt canran

rhwng 2026 a 2046

Pob blwyddyn ar gyfartaledd (2018-2025):

-1,144 mwy o farwolaethau na genedigaethau

+2,055 mwy o bobl yn symud mewn nag allan

mae mudo yn gwrthbwyso dirywiad naturiol yn y boblogaeth

Pob blwyddyn ar gyfartaledd (2018-2024):

18-30: **-481**

31-64: **+1,504**

65+: **+194**

Gadawodd oedolion ifanc, tra symudodd oedolion o oedran gweithio **i mewn** o rannau eraill o'r DU.

Mae'r rhanbarth yn profi **heneiddio'r boblogaeth**, gyda **mwy o farwolaethau na genedigaethau** a **chyfran gynyddol is o drigolion o oedran gweithio**. Mae **mudo** yn helpu i wrthbwyso'r **dirywiad yn y boblogaeth**, er bod **oedolion ifanc yn parhau i adael**, tra bod y **cynnydd** yn canolbwyntio ar oedolion rhwng **31 a 64 oed**.

THEMA 3: IECHYD A LLESIANT

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae iechyd a lles yn cynnig sylfaen ar gyfer pob agwedd ar allu pobl i fyw bywydau boddhaus, cymryd rhan yn eu cymunedau, a chyfrannu i'r economi leol. Mae iechyd corfforol a meddyliol da yn cynorthwyo gwydnwch, annibyniaeth, ac ansawdd bywyd, ac mae iechyd gwael yn gallu cyfyngu ar gyfleoedd, cynyddu anghydraddoldeb a rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus. Felly, mae deall tueddiadau iechyd presennol ac sy'n dod i'r amlwg yn hanfodol er mwyn cynllunio gwasanaethau cynaliadwy ar draws y ddwy sir.

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

- Mae'r ddwy sir yn cynnwys **poblogaeth sy'n heneiddio**, a disgwylir twf arwyddocaol yn nifer y preswylwyr hŷn, gan gynyddu'r **galw am wasanaethau iechyd, gofal a chymorth cymunedol.**
- Mae **cyflyrau hirdymor** gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, diabetes, salwch resbiradol, canser a chyflyrau cyhyrysgerbydol yn **parhau i wneud galwadau sylweddol ar wasanaethau iechyd ar draws y rhanbarth**.
- Mae **cyflyrau cronig** fel diabetes, clefyd cardiofasgwlaidd, a salwch resbiradol yn dod yn fwy cyffredin, yn enwedig ymhlith oedolion hŷn.
- Ceir cysylltiad agos rhwng canlyniadau iechyd ac **amddifadedd**, gydag anghydraddoldebau clir o ran **disgwyliad oes iach, marwolaethau y gellid eu hosgoi a mynediad i ofal iechyd ataliol**.
- **Mae gwledigrwydd yn creu heriau ychwanegol**, yn enwedig mewn perthynas â manteisio ar wasanaethau, trafnidiaeth, argaeledd y gweithlu a darparu gofal yn agosach i'r cartref.
- Mae disgwyliad oes yn y ddwy sir yn gymharol uchel, ond **nid yw disgwyliad oes iach yn cynyddu ar yr un raddfa**, sy'n golygu bod mwy o bobl yn byw'n hirach gyda salwch neu anabledd.
- Mae **anghenion iechyd meddwl yn codi**, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, gyda mwy o adroddiadau am orbryder, iselder a hunan-niwed.
- Mae mynediad i wasanaethau iechyd yn amrywio, wrth i **gymunedau gwledig wynebu amseroedd teithio hirach**, llai o wasanaethau lleol, a heriau wrth fanteisio ar ofal brys neu arbenigol.
- Ceir cysylltiad cadarn rhwng canlyniadau iechyd a ffactorau cymdeithasol-economaidd, gydag **anghydraddoldebau clir** rhwng cymunedau mwy a llai difreintiedig.

Beth ddywedodd cymunedau wrthym

- Nodwyd **mynediad i wasanaethau gofal iechyd** fel pryder mawr yn gyson, yn enwedig apwyntiadau meddyg teulu, deintyddiaeth GIG, gwasanaethau ysbyty ac amseroedd aros.
- Amlygodd ymatebwyr bwysigrwydd **cynnal iechyd corfforol a meddyliol**, gan gydnabod y berthynas agos rhwng y ddau.
- Roedd pobl yn gwerthfawrogi **cyfleoedd i barhau i fod** yn heini trwy gyfrwng cyfleusterau hamdden, llwybrau cerdded a beicio, gweithgareddau cymunedol a chwaraeon.
- Nodwyd bod cymorth er mwyn **heneiddio'n dda, cynnal annibyniaeth a manteisio ar ofal** mewn cymunedau lleol yn flaenoriaeth allweddol.
- **Amlygwyd mynediad gwledig i wasanaethau gofal iechyd a chymorth iechyd meddwl** yn gyson fel maes y mae angen rhoi sylw parhaus iddo.

Anghydraddoldebau allweddol

- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn wynebu **canlyniadau iechyd gwaeth**, cyfraddau salwch cronig uwch, a disgwyliad oes iach byrrach.
- Mae preswylwyr gwledig yn wynebu mwy o **rwystrau wrth fanteisio ar wasanaethau**, gan gynnwys trafnidiaeth, cysylltedd digidol, a phrinder gweithlu.
- Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o brofi **iechyd meddwl gwael** a llai o fynediad i gymorth cynnar.
- Mae pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu sy'n byw ar ei ben ei hun mewn mwy o berygl o **ynysu cymdeithasol**, unigrwydd, ac o weld oedi cyn cael mynediad at ofal.

Pwysau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Bydd **poblogaeth sy'n heneiddio** yn cynyddu'r galw am gymorth **iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol**, a fydd yn gofyn am fodelau gofal integredig newydd.
- Gallai **prinder gweithlu** ar draws gwasanaethau iechyd a gofal ddwysáu, gan effeithio ar argaeledd a pharhad y gwasanaeth.
- Mae **datrysiadau iechyd digidol** yn cynnig cyfleoedd i wella mynediad, ond mae perygl y byddant yn ehangu anghydraddoldeb os na roddir sylw i eithrio digidol.
- Gallai **dulliau ataliol**, gan gynnwys cymorth cymunedol, teithio llesol, ac ymyrraeth gynnar leihau'r galw ar wasanaethau dros y tymor hir.
- Bydd **poblogaeth sy'n heneiddio** yn cynyddu'r galw am iechyd a gofal dros y degawdau nesaf yn sylweddol.
- Mae **cyflyrau hirdymor** a salwch y gellid ei osgoi yn parhau i fod yn heriau mawr, a cheir cysylltiad cadarn rhwng y rhain a ffactorau ffordd o fyw ac amddifadedd.
- Mae **mynediad i wasanaethau** yn parhau i fod yn fater diamheuol yng nghefn gwlad gorllewin Cymru, gan effeithio ar ganlyniadau iechyd a darpariaeth gwasanaethau.
- Mae **darpariaeth fferyllfa cymunedol** yn cyflawni rôl gynyddol bwysig wrth gynorthwyo gofal iechyd ataliol, hunan-ofal, rheoli cyflyrau hirdymor a chael mynediad i wasanaethau gofal iechyd yn agosach i'r cartref.
- Er bod yr Asesiad o Anghenion Fferyllol wedi dod i'r casgliad bod y **ddarpariaeth fferyllol bresennol** yn gymharol ddigonol, disgwylir i'r galw yn y dyfodol gynyddu o ganlyniad i'r ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio, lefelau salwch cronig sy'n codi a thwf parhaus mewn gofal cymunedol.

Ein canfyddiadau allweddol ar gyfer y thema hon

Cryfderau

- Mae canlyniadau iechyd a lles yn gadarnhaol ar y cyfan, ond **mae anghydraddoldebau arwyddocaol yn parhau,** yn enwedig rhwng cymunedau gwledig a mwy difreintiedig.
- Ceir achos cryf dros gael **dulliau ataliol a chymunedol** er mwyn lleihau'r galw dros y tymor hir a chynorthwyo pobl i heneiddio mewn ffordd iachach.

Heriau

- Disgwylir i gyffredinolrwydd **cyflyrau hirdymor**, law yn llaw â **phoblogaeth sy'n heneiddio**, gynyddu'r galw dros **ofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, ysbytai a gofal cymdeithasol**.

- Mae **anghydraddoldebau iechyd** yn parhau i fod yn amlwg ar draws y rhanbarth ac maent yn cael eu dylanwadu gan benderfynyddion ehangach iechyd gan gynnwys incwm, cyflogaeth, tai, addysg a mynediad i wasanaethau.
- Gall **cymunedau gwledig** brofi rhwystrau ychwanegol wrth fanteisio ar ofal iechyd, yn enwedig lle y mae trafnidiaeth, argaeledd y gweithlu a hygyrchedd y gwasanaeth yn cael ei gyfyngu.
- Mae **iechyd meddwl, gordewdra, anweithgarwch corfforol, ysmygu a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol** yn parhau i gyfrannu at ganlyniadau gwael a salwch y gellid ei atal.
- Mae lefelau cynyddol **salwch cronig ac angen iechyd meddwl** yn rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau lleol.
- Mae'r mynediad i iechyd a gofal yn anghyson, ac mae **gwledigrwydd a rhwystrau trafnidiaeth** yn effeithio ar gymorth amserol.
- Mae'r gweithlu iechyd a gofal yn wynebu **heriau parhaus o ran recriwtio a chadw**, gan effeithio ar wydnwch y gwasanaeth.
- Mae datrysiadau iechyd digidol yn cynnig manteision posibl, ond mae'n rhaid eu gweithredu mewn **ffyrdd nad ydynt yn gwaethygu eithrio digidol**.

Themâu trawsbynciol

- **Anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion ehangach iechyd** – Mae'r Asesiad o Anghenion Iechyd gan 'A Regional Collaboration for Health' (ARCH) yn dangos bod canlyniadau iechyd yn cael eu dylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys incwm, tai, cyflogaeth, addysg, trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau. Mae lleihau anghydraddoldebau yn gofyn am weithredu cydgysylltiedig ar draws gwasanaethau cyhoeddus a sectorau.
- **Arferion iach ac ymyrraeth gynnar** – Mae heriau iechyd a lles yn flaenoriaethau rhanbarthol ar draws Gorllewin Cymru, yn enwedig mewn perthynas â chyflyrau hirdymor, iechyd meddwl, a ffactorau ffordd o fyw.

Iechyd a Llesiant

DISGWYLIAD OES AR ENEDIGAETH

79.2 mlwydd oed

82.6 mlwydd oed

(2025)

Mae **disgwyliad oes ar enedigaeth** yn **uwch na chyfartaledd Cymru** i dynion (78.3 mlwydd oed) a menywod (82.2 mlwydd oed)

DISGWYLIAD OES IACH AR ENEDIGAETH

60.5 mlwydd oed

59.7 mlwydd oed

(2025)

Mae **disgwyliad oes iach ar enedigaeth** yn **uwch na chyfartaledd Cymru** i dynion (59.2 mlwydd oed) a menywod (58.5 mlwydd oed)

21,319 (cyfradd fesul 100,000) ar gyfartaledd efo **salwch hirdymor cyfyngol**

(2025)

21.9% ar gyfartaledd efo **cyflwr iechyd meddwl** wedi'i gofnodi gan **feddyg teulu**



(2025)

14.5% o bobl, ar gyfartaledd, yn **byw gyda chyflwr cronig** sydd wedi'i gofnodi gan feddyg teulu



(2025)

51.4% o bobl ar draws ardal y BGC yn teimlo'n **'unig weithiau'**



(2022-23)

38.1% o drigolion yn **economaidd anweithredol** oherwydd **salwch hirdymor neu diferlif iechyd** **uwch** na chyfartaledd Cymru o **34.2%**



(2025)

40.2% o bobl **11-16 mlwydd oed** wedi adrodd bod nhw'n **yfed alcohol, uwch** na cyfartaledd Cymru o **35.6%**




(2023)

23.5/35 oedd **sgôr cyfartalog llesiant meddyliol** plant rhwng **11 ac 16 mlwydd oed**. Cynnydd bach o 23/35 yn 2021.



(2023)

13.4% o oedolion 18 mlwydd oed a hŷn yn **ysmygu, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 12.6%**



(2019-2023)

Nodweddir y rhanbarth gan **ddisgwyliad oes a disgwyliad oes iach sy'n uwch na'r cyfartaledd**, ond mae **rhwystrau clir o ran iechyd a llesiant** a allai gael effaith ehangach. Gyda **chyfraddau uwch na'r cyfartaledd** o **bobl sy'n methu â gweithio oherwydd salwch hirdymor neu diferlif iechyd**, ac **un o bob pump o bobl yn dioddef o gyflwr iechyd meddwl**, gallai fod **cyfleoedd i wella'r gefnogaeth** i'r rhai sy'n wynebu heriau.

THEMA 4: HINSAWDD, NATUR A'R AMGYLCHEDD

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae amgylchedd naturiol iach yn cynnig sylfaen ar gyfer lles hirdymor. Mae tystiolaeth o Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 (SoNaRR2025) yn dangos hyn yn glir – mae 96% o bobl yn dweud bod treulio amser yn yr awyr agored yn cynnig budd i'w hiechyd corfforol, mae 94% yn dweud ei fod yn cynnig budd i'w hiechyd meddwl ac mae 85% yn dweud bod treulio amser allan ym myd natur yn eu gwneud yn hapus. Yng Nghymru yn unig, amcangyfrifir bod gwerth y buddion iechyd blynyddol sy'n gysylltiedig â hamdden yn yr awyr agored mewn natur yn fwy na £320 miliwn (sy'n cyfrannu at arbediad amcangyfrifedig o rhwng £6.2 biliwn ac £8.4 biliwn mewn costau gofal iechyd ledled y DU, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Ymhellach, mae newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a dirywiad amgylcheddol yn effeithio ar iechyd, yr economi, gwydnwch cymunedol a chynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus. Ond er bod tirluniau, arfordiroedd ac asedau naturiol Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn ganolog i fywoliaeth a hunaniaeth leol, maent yn wynebu pwysau cynyddol. Mae'n hanfodol deall yr heriau hyn er mwyn addasu gwaith cynllunio, diogelu ecosystemau, a chynorthwyo'r pontio i ddyfodol carbon isel. Mae hefyd yn cyflawni rôl bwysig yn yr ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur ar y cyd, a chyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru i ddiogelu a 30% o'r tir, y dŵr ffres a'r môr erbyn 2030 mewn ffordd effeithiol, a elwir "Fframwaith 30x30 i Gymru".

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

- Mae'r ddwy sir eisoes yn profi'r effeithiau sy'n gysylltiedig â **newid hinsawdd**, gan gynnwys llifogydd, sychder, tonnau gwres, tanau gwyllt ac erydu arfordirol mwy cyson, sy'n cyd-fynd â nifer uwch o ddigwyddiadau tywydd eithafol.
- **Llifogydd** yw'r risg mwyaf uniongyrchol ac arwyddocaol ar draws ardal y ddau BGC, sy'n cael ei ysgogi gan lawiad mwy dwys, llif afonydd yn codi ac, mewn lleoliadau arfordirol, erydu a risgiau hirdymor sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod lefel y môr yn codi.
- Mae **peryglon hinsawdd** yn tarfu'n gynyddol ar seilwaith hanfodol, rhwydweithiau trafnidiaeth a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'r effeithiau yn aml yn rhaeadru ar draws systemau pŵer, dŵr, gofal iechyd ac ymateb brys. Mae daearyddiaeth wledig yn cynyddu'r risgiau hyn ymhellach, gan bod llwybrau amgen cyfyngedig ac afreidrwydd seilwaith yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd cymunedau yn cael eu hynysu ac y bydd amhariad estynedig yn ystod digwyddiadau eithafol.
- Mae **pwysau cynyddol ar wydnwch ecosystemau**, gan leihau gallu pob cynefin a system naturiol i addasu i newid hinsawdd, llifogydd, llygredd a phwysau amgylcheddol arall, gan gynnwys lledaeniad rhywogaethau, plâu a chlefydau ymledol anfrodorol.
- Mae **datrysiadau sy'n seiliedig ar natur gwyrdd a glas**, gyda chynefinoedd arfordirol a thiriogaethol cysylltiedig ac iach sy'n sail i hyn, yn darparu seilwaith naturiol hanfodol sy'n helpu i reoli risg llifogydd, storio carbon, casglu maethynnau, a chynnal rhwydweithiau ecolegol gwydn.
- Mae'r allyriadau carbon yn y ddwy sir wedi gostwng yn gyffredinol, ond mae'r cynnydd yn anwastad, ac mae **trafnidiaeth a thai** yn parhau i fod yn gyfranwyr arwyddocaol.
- Mae'r ddwy Sir yn llwyddo i fodloni targed Llywodraeth Cymru, sef 70% o ran **perfformiad ailgylchu**, gan helpu i **ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi**, a chynorthwyo datblygiad yr **economi gylchol**, megis CWM Gwyrdd Nant-y-caws ger Caerfyrddin a'r prosiect ynni glân arloesol ym Mhontarfynach yng Ngheredigion.

- Mae **ansawdd dŵr yn parhau i fod yn bryder** mawr mewn dalgylchoedd afon ac arfordirol, gan gynnwys Safleoedd Gwarchodedig Ewropeaidd. Mae pwysau amgylcheddol o'r fath yn effeithio ar iechyd ecosystemau a'r manteision ehangach a gynigir gan yr amgylchedd naturiol.
- Mae bioamrywiaeth dan bwysau, gyda gostyngiadau mewn **peillwyr, adar ffermio a chynefinoedd allweddol** yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol ehangach. Mae gwella cyflwr a chysylltedd safleoedd dynodedig yn parhau i fod yn flaenoriaeth, yn ogystal â ffocws ar fentrau i gynorthwyo rhai o'n rhywogaethau mwyaf agored i niwed a dan fygythiad.
- Mae'r mynediad i leoedd gwyrdd a glas yn dda ar y cyfan, ond mae'n amrywio fesul ardal, ac mae'r ardaloedd hygyrch a diogel yn yr awyr **agored yn gyfyngedig mewn rhai cymunedau**. Mae mynediad i leoedd gwyrdd a glas (gan gynnwys dŵr ymdrochi glân/diogel) yn gwella iechyd corfforol, lles meddyliol ac ansawdd bywyd.
- Mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn sector economaidd a defnydd tir pwysig, ond mae'n wynebu heriau o ran **rheolaeth tir cynaliadwy a diogelwch bwyd**, a gostyngiadau mewn allyriadau maethynnau. Mae cyfundrefnau cymhorthdal newydd yn cynorthwyo gweithgarwch rheoli tir cynaliadwy law yn llaw â hinsawdd sy'n newid.
- Mae **pwysau cynyddol ar ddefnydd tir** yn gofyn am weithgarwch gofalu i sicrhau cydbwysedd rhwng cynhyrchu bwyd a phren, adfer natur, rheoli risg llifogydd, cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac amcanion datblygu economaidd/tai.
- Mae buddsoddiad sylweddol mewn **cynlluniau teithio llesol** yn y ddwy sir wedi gwella cysylltedd lleol bob dydd, iechyd, ac ansawdd amgylcheddol. Megis Llwybr Dyffryn Tywi yn Sir Gaerfyrddin a Chyswllt Teithio Llesol Waunfawr i IBERS yng Ngheredigion.

Beth ddywedodd cymunedau wrthym

- Roedd **ansawdd dŵr** wedi dod i'r amlwg fel un o'r blaenoriaethau amgylcheddol cryfaf, a mynegwyd pryderon am afonydd, dyfroedd arfordirol ac iechyd ecosystemau ehangach.
- Amlygwyd pwysigrwydd **diogelu bywyd gwyllt, bioamrywiaeth, mannau gwyrdd a mynediad i natur** ar gyfer lles corfforol a meddyliol gan breswylwyr.
- Mynegwyd cefnogaeth gan gymunedau ar gyfer cael **amgylcheddau glanach a mwy diogel,** gan gynnwys lleihau sbwriel, rheoli gwastraff a chynnal mannau cyhoeddus deniadol.
- **Nodwyd bod newid hinsawdd, tywydd eithafol** a'r angen i **ddatblygu cymunedau gwydn** yn bryderon cynyddol ar gyfer y dyfodol.
- Roedd ymgysylltu â'r Bartneriaeth Natur Leol wedi amlygu **cysylltiad cryf rhwng natur, cydlyniant cymunedol a lles unigol.**

Anghydraddoldebau allweddol

- Nid yw **risgiau hinsawdd** wedi'u dosbarthu'n gyfartal ac maent yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau bregus, gan gynnwys ynysu gwledig a chymdeithasol, poblogaethau sy'n heneiddio a chymunedau mewn ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd fel y nodwyd yn Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar y Cyd BGC Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
- Mae aelwydydd heb fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn wynebu mwy o **rwystrau wrth geisio manteisio ar ddewisiadau teithio carbon isel.**
- Mae aelwydydd incwm is yn fwy agored i niwed gan **dlodi tanwydd a bwyd**, effeithlonrwydd tai gwael, a siociau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.
- Efallai y bydd cymunedau gwledig yn wynebu costau uwch a llai o ddewisiadau er mwyn **datgarboneiddio cartrefi a thrafnidiaeth**.

Pwysau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Mae rhagamcanion newid hinsawdd yn dynodi y bydd cynnydd yn amlder ac enbydrwydd **llifogydd, tonnau gwres, stormydd** ac **erydu arfordirol**, a fydd yn gofyn am waith addasu arwyddocaol er mwyn mynd i'r afael â'r effeithiau cronnus a rhaeadrol.
- Mae symud i economi carbon isel yn cynnig cyfleoedd ym maes **ynni adnewyddadwy, datrysiadau sy'n seiliedig ar natur,** a **sgiliau gwyrdd a glas.**
- Gallai gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi leihau allyriadau a mynd i'r afael â thlodi tanwydd, ond mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad a chapasiti y gweithlu.
- Gall **adfer cynefinoedd a chynnal bioamrywiaeth** wella gwydnwch yr hinsawdd ac ecosystemau tiriogaethol, dŵr ffres a morol, gwella lles, a chryfhau'r economi leol trwy gyfrwng twristiaeth gynaliadwy a gwasanaethau ecosystem. Ceir cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar raddfa tirlun a dalgylch hefyd.

Ein canfyddiadau allweddol ar gyfer y thema hon

Cryfderau

- Ceir cysylltiad agos hefyd rhwng ansawdd amgylcheddol a **lles corfforol a meddyliol**, gan amlygu pwysigrwydd diogelu a gwella'r mynediad i leoedd gwyrdd a glas naturiol gwydn ac iach.
- Ceir cyfleoedd arwyddocaol ar gyfer **ynni adnewyddadwy priodol, adfer natur,** a **sgiliau gwyrdd**, y gallent gynorthwyo gwydnwch economaidd a lles cymunedol.
- Mae cymunedau yn meddu ar **rwydweithiau cymdeithasol** a **gwybodaeth leol gwerthfawr** sy'n cynorthwyo gwydnwch yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol. Gallai cryfhau partneriaethau gyda sefydliadau cymunedol, grwpiau gwirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned wella pa mor barod ydynt a'u gallu i ymateb.
- Yn benodol, mae **datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys adfer cynefin, rheoli mawndir, draenio cynaliadwy, rheoli risg llifogydd mewn ffordd naturiol a chreu coetiroedd**, yn cynnig cyfleoedd i wella gwydnwch yr hinsawdd, bioamrywiaeth, ansawdd dŵr a lles cymunedol ar yr un pryd.

Heriau

- Mae effeithiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd eisoes yn effeithio ar y ddwy sir, gyda **llifogydd, erydu arfordirol, sychder a thanau gwyllt** yn gysylltiedig â **digwyddiadau tywydd mwy eithafol** yn arwain at risgiau cynyddol i gymunedau a seilwaith.
- Mae bioamrywiaeth dan bwysau parhaus, ac **mae gwydnwch ecosystemau yn dirywio**, gan adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol a byd-eang.
- Mae trafnidiaeth a thai yn parhau i fod yn gyfranwyr mawr i allyriadau carbon, **sy'n gofyn am weithredu wedi'i gydlynu** ar draws sectorau.
- Ni chaiff risgiau amgylcheddol ac effeithiau hinsawdd **eu profi mewn ffordd gyfartal**, ac mae rhai cymunedau yn fwy agored iddynt, neu'n llai galluog i addasu. Yn ogystal, gall risg amgylcheddol a bod yn agored i niwed cymdeithasol orgyffwrdd mewn rhai lleoliadau, gan gynyddu'r cysylltiad ag effeithiau.

Themâu trawsbynciol


- Mae'r amgylchedd naturiol yn **ased mawr i'r ddwy sir**, gan gynorthwyo twristiaeth, amaethyddiaeth, hamdden, lles a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o ran ynni adnewyddadwy priodol a'r economi werdd a glas.

- **Anaml y bydd risgiau hinsawdd yn digwydd ar eu pen eu hunain.** Mae mynd i'r afael â risgiau hinsawdd mewn ffordd effeithiol yn gofyn am ymatebion wedi'u cydlynu sy'n ystyried y rhyng-ddibyniaethau rhwng systemau seilwaith, prosesau amgylcheddol a gwydnwch ecosystemau a chymunedau.
- Bydd dull hirdymor, **cydlynol ac wedi'i seilio ar le tuag** at addasu a datgarboneiddio yn hanfodol er mwyn diogelu cymunedau a chynorthwyo pontio cyfiawn tuag at net sero carbon.
- **Cynaliadwyedd amgylcheddol a datgarboneiddio** – Mae newid hinsawdd, llifogydd, colli bioamrywiaeth, a'r angen i ddatgarboneiddio yn flaenoriaethau rhanbarthol a rennir.
- **System fwyd sy'n wydn a diogelwch bwyd dros y tymor hir** – Mae'r ddwy sir yn cydnabod yr angen am strategaethau lleol ac wedi'u targedu, sy'n gwella hygyrchedd a fforddiadwyedd bwyd, ynghyd ag ymgysylltu cymunedol er mwyn cynorthwyo cynaliadwyedd a diogelwch bwyd dros y tymor hir ar draws y rhanbarth.

Hinsawdd, Natur a'r Amgylchedd

5.7% 

eiddo preswyl sydd mewn perygl o **lifogydd afon**, rhagwelir y bydd yn **codi i 9.5% erbyn 2120**

3.3% 

eiddo preswyl sydd mewn perygl o **lifogydd dŵr môr**, rhagwelir y bydd yn **codi i 7.7% erbyn 2120**

7.7% 

eiddo preswyl sydd mewn perygl o **lifogydd dŵr arwyneb**, rhagwelir y bydd yn **codi i 12.1% erbyn 2120**

(2025)


70.9% 

o wastraff yn cael **ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio**, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 68.4%

(2024-25)

21,645

prosiectau ynni carbon isel ar draws ardal y BGC



98.6%

cynnydd yn nifer y **prosiectau ynni carbon isel** ers 2020

(2024)

29.5%

(2024-25)



o ostyngiad yn nifer y **digwyddiadau tipio anghyfreithlon** ers 2020-21



62.8%



o eiddo preswyl **o fewn 300m i ofod gwyrdd naturiol hygyrch**, yn is na chyfartaledd Cymru o 82.3%

WIMD (2025)

ANSAWDD AER

NO2 3 µg/m3 i gymharu a 6 µg/m3 yn genedlaethol

PM10 6.5 µg/m3 i gymharu a 8 µg/m3 yn genedlaethol

PM2.5 4 µg/m3 i gymharu a 5 µg/m3 yn genedlaethol

(2024)

NO2 = Nitrogen Deuocsid
PM = Deunydd gronynnol
µg/m3 = microgramau fesul metr ciwbig

50%

o **ddyfroedd ymdrochi** o **ansawdd rhagorol**



(2025)

Er bod canran yr **eiddo sydd mewn perygl o lifogydd** yn **is na'r cyfartaledd cenedlaethol**, rhagwelir y bydd nifer yr **eiddo sydd mewn perygl yn cynyddu** dros y degawdau nesaf. Mae **cyfraddau ailgylchu uchel** a **gostyngiad yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon** yn bethau cadarnhaol, ond mae **angen eu cynnal**. Mae gan yr ardal **ganran is na'r cyfartaledd o eiddo sydd â mynediad at ofod gwyrdd naturiol**; felly, mae **atal colli rhagor o ofod gwyrdd** yn **hanfodol** ar gyfer llesiant a chenedlaethau'r dyfodol.

THEMA 5: TAI A SEILWAITH LLEOL

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae tai a seilwaith lleol yn hanfodol i lesiant gan eu bod yn dylanwadu ar allu pobl i gael mynediad at wasanaethau, cyflogaeth, addysg a chymorth. Gall tai fforddiadwy, addas ac ynni-effeithlon leihau pwysau ariannol, cefnogi byw'n annibynnol a gwella canlyniadau iechyd, tra bo seilwaith effeithiol yn helpu i gysylltu cymunedau ac yn galluogi datblygu cynaliadwy. Gall heriau sy'n ymwneud â fforddiadwyedd tai, cyflwr gwael tai a chyfyngiadau seilwaith gyfrannu at anghydraddoldeb a lleihau cyfleoedd i drigolion ledled Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

- **Mae fforddiadwyedd ac argaeledd tai** yn parhau'n heriau sylweddol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
- Mae **cysylltedd trafnidiaeth** yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar fynediad at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol.
- Mae **ansawdd tai, effeithlonrwydd ynni a'r gallu i addasu** yn dylanwadu ar dlodi tanwydd a chanlyniadau iechyd.
- Mae **tai fforddiadwy** yn chwarae rhan bwysig wrth gadw pobl iau, gweithwyr, gofalwyr a thrigolion Cymraeg eu hiaith o fewn cymunedau.
- Gall **cyfyngiadau seilwaith** gyfyngu ar fynediad at wasanaethau ac oedi cyfleoedd datblygu.
- Mae **lleoliad tai** yn cael effaith uniongyrchol ar fynediad at ofal iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a chyfleoedd cyflogaeth. Mae anghydraddoldebau daearyddol ac iechyd yn cael eu gwaethygu gan gau neu leihau gwasanaethau meddygon teulu lleol.

Beth ddywedodd cymunedau wrthym

- Nodwyd mynediad at **dai fforddiadwy** yn fater allweddol sy'n effeithio ar allu pobl i aros yn eu cymunedau lleol a diwallu eu hanghenion tai.
- Gall **darpariaeth drafnidiaeth gyfyngedig** ei gwneud yn fwy anodd cael mynediad at wasanaethau hanfodol a chymryd rhan lawn ym mywyd y gymuned.
- Nodwyd **cyflwr a gwaith cynnal a chadw ffyrdd** yn faterion pwysig sy'n effeithio ar deithio bob dydd.
- **Cydnabuwyd bod tai, gwasanaethau a seilwaith hygyrch** yn bwysig er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol a chymryd rhan lawn ym mywyd y gymuned.
- Nodwyd **eiddo gwag** ac **ail gartrefi** yn ffactorau sy'n effeithio ar argaeledd a fforddiadwyedd tai lleol.

Anghydraddoldebau allweddol

- Gall aelwydydd sy'n wynebu heriau fforddiadwyedd tai brofi mwy o **straen ariannol**.
- Gall trigolion mewn cymunedau gwledig a gwasgaredig wynebu mwy o **anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau a seilwaith.**
- Gall pobl sy'n byw mewn tai o ansawdd gwael brofi **canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwaeth.**
- Gall unigolion sydd â mynediad cyfyngedig at drafnidiaeth wynebu **rhwystrau i gyflogaeth, addysg, gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol.**

- Gall pobl hŷn a'r rhai ag anghenion ychwanegol fod dan anfantais lle **nad oes tai addas y gellir eu haddasu ar gael.**

Pwysau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Gall pwysau **fforddiadwyedd tai** gynyddu os bydd prisiau tai a rhenti'n parhau i godi'n gyflymach nag incwm.
- Mae'r galw am **dai hygyrch y gellir eu haddasu** yn debygol o gynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio.
- Bydd **newid hinsawdd** yn cynyddu'r angen am seilwaith gwydn a charbon isel.
- Gall twf **gweithio o bell a gweithio hybrid** newid patrymau'r galw am dai.
- Mae cyfleoedd i **wella ansawdd tai, effeithlonrwydd ynni a seilwaith carbon isel**.

Ein canfyddiadau allweddol ar gyfer y thema hon

Cryfderau

- Cydnabyddir materion **tai** a **seilwaith** ar draws sectorau, gan gefnogi dulliau gweithredu ar y cyd.
- Mae **trefniadau partneriaeth** presennol yn darparu sylfaen gref ar gyfer gweithredu ar y cyd ar faterion tai a seilwaith.
- Mae **gweithio ar draws ffiniau** eisoes yn cefnogi trigolion sy'n defnyddio gwasanaethau ar draws ffiniau sirol.
- Cydnabyddir **materion tai a seilwaith** yn flaenoriaethau cyffredin ar draws sawl sector, gan greu sail ar gyfer cydweithio.

Heriau

- Mae **fforddiadwyedd ac argaeledd** tai yn parhau'n heriau sylweddol.
- Gall **ansawdd tai gwael ac effeithlonrwydd ynni isel** gyfrannu at dlodi tanwydd a chanlyniadau iechyd gwael.
- Mae natur **wledig** ac aneddiadau gwasgaredig yn gwneud darparu tai a seilwaith yn fwy anodd.
- Mae angen ymatebion cydgysylltiedig i faterion **fforddiadwyedd, mynediad gwledig ac ansawdd tai.**

Themâu trawsbynciol


- **Mynediad at wasanaethau**: Mae lleoliad tai, cysylltedd trafnidiaeth a chapasiti seilwaith yn dylanwadu ar fynediad at ofal iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, cyflogaeth a gwasanaethau cymunedol.
- **Iechyd a llesiant**: Gall cyflwr tai gwael effeithio'n negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol, tra bo tai addas yn cefnogi byw'n annibynnol a heneiddio'n iach.
- **Pobl hŷn a heneiddio'n dda**: Disgwylir i'r galw am gartrefi hygyrch y gellir eu haddasu gynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio.

Tai a Seilwaith Lleol

FFORDDIADWYEDD TAI

Mae fforddiadwyedd tai yn her ar draws ardal y BGC






Cymhareb Fforddiadwyedd (2025)

*Yr **isaf** y ffigur, y **mwyaf fforddiadwy** yw'r eiddo*

Cyfrifir cymarebau fforddiadwyedd drwy rannu prisiau tai canolrifol â enillion canolrifol

PRISIAU TAI

(cyfartaledd)



CARTREFI ODDI AR Y GRID

49% o gartrefi heb gysylltiad â'r rhwydwaith nwy i gymhrau a 19% ar draws Cymru (2024)



EFFEITHLONRWYDD EGNI (2025)




Mae effeithlonrwydd ynni cartrefi yn **is** na chyfartaledd Cymru.

	Band	Sgôr GAS*
Ceredigion	**D**	(56)
Sir Caerfyrddin	**D**	(60)
Cymru	**D**	(63)

*Sgôr Gweithdrefn Asesau Safonol

TLODI TANWYDD (2018)







Bron i 1 o bob 3 AGEHI yn ardal y BGC gyda mynediad gwael i gwasanaethau allweddol

10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

(2025)

Mae'r galw am addasiadau i gartrefi ar fin cynyddu.

Disgwylir i'r boblogaeth 85+ mlwydd oed bron â dyblu erbyn 2046:



Sir Caerfyrddin: 6,334 → 12,066 **+91%**

Ceredigion: 2,523 → 4,689 **+86%**

(2022-based)

Ar draws ardal y BGC mae **26.1%** o **dai o ansawdd gwael** i gymharu a chyfartaledd o 17.2% ar draws awdurdodau lleol Cymru



(2025)

Mae ardal y BGC yn wynebu **pwysau tai a seilwaith**, a nodweddir gan **dlodi tanwydd sylweddol**, cyfran uchel o **gartrefi oddi ar y grid**, **tai o ansawdd gwael** a **heriau fforddiadwyedd** difrifol (yng Ngheredigion). Mae tua 30% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn dioddef o **mynediad gwael at wasanaethau**, a bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn cynyddu'r galw am **addasiadau i gartrefi** yn sydyn.

THEMA 6: CYDLYNIANT A DIOGELWCH CYMUNEDOL

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae diogelwch cymunedol yn hanfodol i lesiant yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Gall troseddu, cam-drin domestig, troseddau rhywiol, niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a thanau gwyllt gael effeithiau sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol, hyder cymunedol, mynediad at wasanaethau, llesiant economaidd ac ansawdd amgylcheddol. Gall natur wledig, unigedd a heriau trafnidiaeth ei gwneud yn fwy anodd i bobl gael cymorth, tra gall digwyddiadau fel gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a thanau gwyllt effeithio'n anghymesur ar deuluoedd, cymunedau, busnesau lleol a grwpiau agored i niwed.

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

- Y materion diogelwch cymunedol sy'n achosi'r niwed mwyaf yw **cam-drin domestig, troseddau rhywiol, gan gynnwys stelcio, cyffuriau anghyfreithlon a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd difrifol.**
- Mae cymunedau'n nodi **diogelwch ar y ffyrdd, cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol** ymhlith eu pryderon mwyaf.
- Mae **trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol** wedi'u crynhoi yng nghanol trefi ac ardaloedd yr economi nos megis Llanelli, Caerfyrddin ac Aberystwyth.
- Mae **gweithgarwch llinellau cyffuriau a rhwydweithiau cyflenwi cyffuriau** yn effeithio ar y ddwy sir, gyda chysylltiadau ag ecsbloetio pobl agored i niwed.
- Mae'r galw sy'n deillio o **gam-drin domestig** yn uchel o'i gymharu â maint y boblogaeth, gyda chymhlethdod cynyddol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, diweithdra a thlodi.
- Mae **digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol** yn cyfrannu'n sylweddol at y galw ar wasanaethau diogelwch cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol ac ardaloedd myfyrwyr.
- Ar gyfartaledd ceir 160 o **danau glaswellt** bob blwyddyn ar draws y ddwy sir, ac mae 11% ohonynt yn cael eu dosbarthu'n danau gwyllt mawr.
- Gall **ofn troseddu** fod yn gymharol uchel er bod cyfraddau troseddu'n gymharol isel, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.
- Ar gyfartaledd, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn mynychu 231 o **wrthdrawiadau ffyrdd** bob blwyddyn ar draws y ddwy sir; mae angen i'r gwasanaeth ryddhau unigolion mewn 13% o'r achosion hyn, sy'n dynodi difrifoldeb mwy.

Beth ddywedodd cymunedau wrthym

- Nodwyd **teimlo'n ddiogel** mewn cymunedau lleol yn agwedd sylfaenol ar ansawdd bywyd a llesiant.
- Ystyriwyd **cyfleoedd i gwrdd ag eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol** yn bwysig ar gyfer adeiladu cymunedau cryfach a mwy cysylltiedig.
- Ystyriwyd bod **cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol a gwneud penderfyniadau** yn bwysig ar gyfer meithrin balchder a pherchnogaeth gymunedol.
- Cydnabuwyd bod **cymorth anffurfiol gan ffrindiau, cymdogion a rhwydweithiau lleol** yn ffynhonnell bwysig o gymorth a sicrwydd.

- Nodwyd **unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol** yn faterion a all effeithio ar bobl o bob oedran a chefndir.

Anghydraddoldebau allweddol

- Gall **trigolion gwledig** brofi llai o fynediad at wasanaethau cymorth, cyfiawnder, plismona a gwasanaethau i ddioddefwyr oherwydd daearyddiaeth a rhwystrau trafnidiaeth.
- Mae **menywod, plant a phobl hŷn** yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan bryderon diogelu a cham-drin domestig.
- Mae **pobl hŷn** mewn mwy o berygl o seiberdroseddu a thwyll.
- Mae pobl sy'n profi **problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a thlodi** yn fwy agored i niwed ac ecsbloetio.
- Gall **cymunedau gwledig** brofi ymatebion brys a phlismona arafach oherwydd daearyddiaeth ac anghysbellter.
- Mae pobl **LGBT** a **lleiafrifoedd ethnig** yn wynebu risg anghymesur uchel o ddioddef troseddau casineb a gwahaniaethu, sy'n adlewyrchu'r tueddiadau ledled Cymru.
- Mae **pobl ifanc** mewn cymunedau agored i niwed a difreintiedig yn wynebu mwy o risgiau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymddieithrio o'r ysgol.
- Gall mwg llygredd o danau gwyllt effeithio'n anghymesur ar bobl â **chyflyrau anadlol**.
- Gall **allgáu digidol** atal rhai trigolion rhag cael cymorth, rhoi gwybod am drosedd neu ymgysylltu â gwasanaethau.

Pwysau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Disgwylir i'r galw sy'n gysylltiedig â **cham-drin domestig, diogelu a bygythiadau niwed uchel eraill ddod** yn fwy cymhleth.
- Gall **pwysau economaidd** parhaus gynyddu bregusrwydd, camddefnyddio sylweddau a'r galw am wasanaethau.
- Mae **poblogaeth sy'n heneiddio** yn debygol o gynyddu'r galw am ymatebion plismona a diogelu.
- Gall **dibyniaeth gynyddol ar dechnoleg ddigidol** arwain at fwy o risgiau seiberdroseddu, ond hefyd at gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau'n ddigidol.
- Gall **twf poblogaeth mewn trefi** roi pwysau ychwanegol ar amseroedd ymateb a phlismona gweladwy.
- Disgwylir i **newid hinsawdd** gynyddu amlder a difrifoldeb tanau gwyllt ac ymestyn y galw y tu hwnt i uchafbwynt traddodiadol y gwanwyn.
- Mae **addysg barhaus ar ddiogelwch ffyrdd, terfynau cyflymder is a gwelliannau seilwaith** yn cynnig cyfleoedd i leihau difrifoldeb gwrthdrawiadau.
- Gallai mwy o ddefnydd o **wasanaethau allgymorth a symudol** wella mynediad i gymunedau gwledig.

Ein canfyddiadau allweddol ar gyfer y thema hon

Cryfderau

- Mae trefniadau **diogelu amlasiantaethol** cryf eisoes ar waith.
- Mae **partneriaethau sefydledig** ar waith i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, diogelwch cymunedol ac atal.

- Mae **partneriaethau canol tref presennol** yn cefnogi ymatebion cydgysylltiedig i drais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae **mentrau a arweinir gan y gymuned a chyfranogiad y trydydd sector** yn cefnogi gwydnwch a chydlyniant lleol.
- Mae **gwasanaethau a gomisiynir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC)** yn darparu cymorth sydd wedi'i deilwra'n lleol ar gyfer dioddefwyr a thystion troseddau; yn y cyfamser, mae gwasanaethau atal a dargyfeirio troseddwyr (fel Codi) yn mynd i'r afael â gwreiddiau troseddau, yn lleihau aildroseddu, ac yn helpu unigolion agored i niwed i adael y system cyfiawnder troseddol.
- Arweiniodd Adolygiad Pwyllgor Dethol y PCC i Wasanaethau Ymyrraeth, Atal ac Ymgysylltu Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar gyfer oedolion ifanc 18-25 oed at 13 o argymhellion penodol a rannwyd gydag asiantaethau partner i **fynd i'r afael â bylchau mewn cefnogaeth, lleihau troseddu, darparu gwaith atal cryfach, a hyrwyddo gwasanaethau cymorth yn well.**
- Mae'r gwasanaeth tân eisoes yn gweithio gyda phartneriaid i **leihau nifer a difrifoldeb tanau gwyllt.**
- Mae **hunaniaeth gymunedol gref** a **chydlyniant cymdeithasol** yn parhau'n asedau pwysig ar draws y ddwy sir.

Heriau

- Gall **unigedd gwledig** gynyddu bregusrwydd a gwneud mynediad at wasanaethau cymorth yn fwy anodd.
- Mae **tangofnodi troseddau a cham-drin** yn golygu bod rhywfaint o niwed yn parhau'n gudd.
- Mae **amseroedd ymateb i ardaloedd gwledig** yn parhau'n her.
- Mae **niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau a throseddu cyfundrefnol** yn parhau i effeithio ar gymunedau ar draws y ddwy sir.
- Gall pwysau **twristiaeth tymhorol** gynyddu'r galw a chreu heriau diogelwch cymunedol ychwanegol.
- Mae cymhlethdod cynyddol achosion sy'n cynnwys **iechyd meddwl, tlodi a chamddefnyddio sylweddau** yn rhoi pwysau ar wasanaethau.
- Gall problemau **rhannu data, gallu dadansoddol a chydnawsedd systemau** gyfyngu ar wybodaeth a chynllunio partneriaethol.
- Mae **seiberdroseddu a thwyll** yn dod yn fwyfwy soffistigedig.

Themâu trawsbynciol

- **Natur wledig a mynediad at wasanaethau**: Mae daearyddiaeth, cyfyngiadau trafnidiaeth ac unigedd gwledig yn effeithio ar fynediad at blismona, diogelu, cymorth i ddioddefwyr a gwasanaethau ehangach.
- **Atal ac ymyrryd yn gynnar**: Gall gweithredu'n gynnar gydag unigolion a chymunedau agored i niwed leihau niwed a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol.
- **Diogelu a bregusrwydd**: Mae cam-drin domestig, ecsbloetio, troseddu cyfundrefnol, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl yn gysylltiedig â'i gilydd.
- **Cynaliadwyedd amgylcheddol a newid hinsawdd:** Mae newid hinsawdd yn cynyddu'r risg o danau gwyllt ac yn effeithio ar gymunedau, tirweddau a gwasanaethau cyhoeddus.
- **Twristiaeth a newidiadau tymhorol yn y boblogaeth**: Mae ymwelwyr tymhorol yn dylanwadu ar y galw, pwysau diogelwch cymunedol a'r risg o danau gwyllt yn y ddwy sir.

Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol



23.4%

o gynnydd mewn digwyddiadau a throseddau sy'n ymwneud â **cham-drin domestig** ers 2020



24.6%

o gynnydd yn nifer y **troseddau rhywiol** a gofnodwyd ers 2020



11.4%

o ostyngiad yn y **troseddau cyffuriau anghyfreithlon** a gofnodwyd ers 2020



35.1%

cynnydd mewn **gwrthdrawiadau traffig ffyrdd difrifol** ers 2020

(Ardal Heddlu Dyfed-Powys 2020 & 2025)

43.4%



o ostyngiad yn nifer y digwyddiadau **ymddygiad gwrthgymdeithasol** ers 2020

(Ardal Heddlu Dyfed-Powys 2020 & 2025)

+133



mwy o **danau glaswelltir, coetir** a **chnydau** yn 2024-25 nag yn 2023-24

(Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023-24 a 2024-25)

6%



o ardaloedd ar draws y BGC sydd ymhlith y **10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig** yng Nghymru o ran **diogelwch cymunedol**

(Rhanbarth y BGC 2025)

2018-19 **82.8%** → 2021-22 **71.2%**

gostyngiad yn nifer y bobl sy'n **teimlo'n ddiogel** yn eu **hardal leol**





(Rhanbarth y BGC 2018-19 & 2021-22)

2024-25 **10%**



gostyngiad yn nifer y troseddau twyll a chyfrifiadurol ers 2023-24



(Ardal Heddlu Dyfed-Powys Police 2023-24 & 2024-25)



68.4 cyfradd troseddu fesul 1,000

yn **is** na chyfartaledd Cymru o **79.1**

(Ardal Heddlu Dyfed-Powys area 2026)

Mae'r rhanbarth yn profi **cynnydd** mewn digwyddiadau a throseddau fel **cam-drin domestig** a throseddau **rhywiol**. Er bod **gostyngiad wedi bod mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol** a throseddau **cyffuriau** anghyfreithlon, ac er gwaethaf **cyfraddau troseddu sy'n is na'r cyfartaledd**, mae **ofn troseddu yn parhau i fod yn uchel**, gyda **llai** o bobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardaloedd lleol.

THEMA 7: YR IAITH GYMRAEG, DIWYLLIANT A HUNANIAETH

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol yn cyfrannu'n bwysig at lesiant, gan gefnogi ymdeimlad o berthyn, cydlyniant cymdeithasol a chymunedau gwydn ledled Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a gwasanaethau dwyieithog yn helpu i wella cyfleoedd, cynhwysiant a chyfranogiad. Mae cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cefnogi parhad diwylliannol, capasiti'r gweithlu a bywiogrwydd cymunedol. Gallai colli siaradwyr Cymraeg wanhau rhwydweithiau cymunedol a lleihau mynediad at wasanaethau yn Gymraeg, yn enwedig i drigolion hŷn ac agored i niwed.

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

- Mae Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ymhlith **yr ardaloedd cryfaf yng Nghymru o ran y Gymraeg** o hyd.
- Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos **gostyngiad yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg** yn y ddwy sir.
- Mae **pobl ifanc, patrymau mudo a newid demograffig** yn ddylanwadau pwysig ar gynaliadwyedd yr iaith.
- Mae Strategaethau Hybu'r Gymraeg a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith i gefnogi twf yr iaith.
- Mae **hunaniaeth ddiwylliannol Gymraeg** yn cael ei dylanwadu gan ysgolion, gweithgareddau cymunedol, traddodiadau lleol, trosglwyddo o fewn y teulu a gwasanaethau dwyieithog.
- Mae **gofal plant cyfrwng Cymraeg** yn cefnogi cynaliadwyedd y Gymraeg, ond mae prinder gweithlu yn parhau'n her.

Beth ddywedodd cymunedau wrthym

- Pwysleisiodd trigolion bwysigrwydd **diogelu a dathlu treftadaeth leol, adeiladau hanesyddol, tirnodau ac asedau diwylliannol**, gan gydnabod eu cyfraniad at hunaniaeth gymunedol ac ymdeimlad o le.
- Nododd llawer o ymatebwyr fod y **Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth leol**, gan gefnogi ei hyrwyddo, ei diogelu a mwy o ddefnydd ohoni o ddydd i ddydd mewn cymunedau.
- Pwysleisiodd cymunedau bwysigrwydd **cynnal cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a chymunedol**, gan gydnabod eu cyfraniad at lesiant, perthyn a chysylltiad cymdeithasol.
- Pwysleisiodd pobl ifanc bwysigrwydd **cael gwrandawiad, teimlo eu bod yn cael eu parchu a chael cyfleoedd i gymryd rhan ym mywyd y gymuned a gwneud penderfyniadau.**
- Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi **ymdeimlad cryf o gymuned, balchder lleol a pherthyn,** gan gydnabod eu cyfraniad at lesiant unigolion a chymunedau.
- Nododd trigolion bwysigrwydd **amgueddfeydd, y celfyddydau, digwyddiadau lleol, traddodiadau a gweithgareddau cymunedol** wrth gynnal hunaniaeth ddiwylliannol a chryfhau cysylltiadau rhwng pobl a lle.
- Mynegodd pobl ifanc ddiddordeb mewn **gweithgareddau Cymraeg a diwylliannol**, ynghyd ag awydd am fwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn clybiau, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n adlewyrchu eu diddordebau a'u hunaniaethau.
- Cydnabu cymunedau fod y **Gymraeg, treftadaeth, diwylliant a'r amgylchedd naturiol yn perthyn yn agos** i'w gilydd, gan gyfrannu gyda'i gilydd at gymeriad a hunaniaeth unigryw Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Anghydraddoldebau allweddol

- Efallai y bydd angen gwasanaethau Cymraeg ar **bobl hŷn a grwpiau agored i niwed** er mwyn cefnogi urddas a hygyrchedd.
- Gall **mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** ddylanwadu ar gyfleoedd yn y dyfodol, hyder a chyfranogiad diwylliannol.
- Gall cymunedau sy'n **profi gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg** wynebu llai o barhad diwylliannol a rhwydweithiau cymunedol gwannach.

Pwysau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Mae **poblogaeth sy'n heneiddio** yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gall **patrymau mudo** ddylanwadu'n sylweddol ar ddefnydd yr iaith a bywiogrwydd cymunedol yn y dyfodol.
- Gallai **diwygiadau addysg** wella sgiliau Cymraeg cenedlaethau'r dyfodol.
- Gall **polisïau cenedlaethol, gan gynnwys Cymraeg 2050**, gynyddu disgwyliadau a chymorth ar gyfer darpariaeth Gymraeg.
- Gallai **gweithio hybrid a thechnoleg ddigidol** greu cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ein canfyddiadau allweddol ar gyfer y thema hon

Cryfderau

- Mae'r ddwy sir ymhlith **yr ardaloedd cryfaf yng Nghymru o ran y Gymraeg** o hyd.
- Mae'r **Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol yn cefnogi** ymdeimlad cryf o berthyn a llesiant diwylliannol.
- Mae **Strategaethau Hybu'r Gymraeg sefydledig** a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn darparu fframwaith ar gyfer twf.
- Mae **partneriaethau a strwythurau llywodraethu presennol** yn darparu sylfaen gref ar gyfer gweithredu ar y cyd.

Heriau

- Mae **nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yn gostwng** yn y ddwy sir.
- Mae **cadw siaradwyr Cymraeg ifanc** o fewn cymunedau lleol yn her.
- Mae **newid demograffig a phatrymau mudo** yn effeithio ar gynaliadwyedd yr iaith.
- Mae'r **galw am wasanaethau Cymraeg** yn cynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio.
- Mae **pwysau tai a fforddiadwyedd** yn effeithio ar allu teuluoedd Cymraeg eu hiaith i aros yn lleol.

Themâu trawsbynciol

- **Newid demograffig a mudo**: Mae newidiadau ym mhoblogaethau'r ddwy sir yn dylanwadu'n sylweddol ar gynaliadwyedd y Gymraeg, bywiogrwydd cymunedol a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol.
- **Plant a phobl ifanc**: Bydd cadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn allweddol i Sir Gaerfyrddin a Cheredigion er mwyn cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith, cryfhau gweithlu'r dyfodol a chynnal parhad diwylliannol.
- **Y Gymraeg a llesiant diwylliannol:** Mae gan y ddwy sir gyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg a hunaniaethau diwylliannol cryf.

Yr Iaith Gymraeg, Diwylliant a Hunaniaeth

104,516

41.3%

o breswylwyr yn siarad Cymraeg

(2021)



yn uwch na cyfartaledd Cymru o 17.8%



SIARADWYR CYMRAEG YN ÔL GRŴP OEDRAN



3 - 15 mlwydd oed 8.4%



16 - 64 mlwydd oed 22.9%



65+ mlwydd oed 10.1%

(2021)

Sir Caerfyrddin

39.9%

yn siarad Cymraeg

-4.1

gostyngiad pwynt canran ers 2011, sef y **gostyngiad mwyaf ledled Cymru**

Ceredigion

45.3%

yn siarad Cymraeg

-2.2

gostyngiad pwynt canran ers 2011

(2021)



(2025)

64.4%

o **ysgolion** ar draws rhanbarth y BGC yn rhai **cyfrwng Cymraeg**

11.6%



o **ostyngiad** yn nifer y bobl **15 i 19 mlwydd oed** rhwng 2011 a 2024, sy'n arwain at **golli siaradwyr Cymraeg**

76.7%

(2022-23)



o drigolion ledled y rhanbarth yn **cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant** neu **dreftadaeth** o leiaf **dair gwaith yr wythnos**



6.3

Mae prisiau tai **6.3 gwaith yn uwch** na'r incwm lleol ar draws y rhanbarth, gan greu **rhwystrau i deuluoedd lleol sy'n siarad Cymraeg**

(2025)



30.6%

yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd - yn uwch na chyfartaledd Cymru o **10.7%**

(2022-23)

45.8%



o drigolion yn teimlo **ymdeimlad o berthyn** i'w hardal leol

(2022-23)

Mae Strategaethau Hyrwyddo'r Gymraeg a **Chynlluniau Strategol** ar gyfer **y Gymraeg mewn Addysg** ar waith i **gefnogi twf yr iaith**



Mae'r ardal wedi gweld **dirywiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers 2011**, ond mae **addysg Gymraeg gref**, **cyfranogiad diwylliannol** a **defnydd dyddiol uchel o'r Gymraeg** yn cynnig **arwyddion cadarnhaol** o adferiad. Mae pwysau o ran **fforddiadwyedd tai** yn parhau i fod yn fygythiad allweddol i gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg ar draws y rhanbarth yn **parhau i fod yn llawer uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.**

THEMA 8: CYNHWYSIANT DIGIDOL, CYSYLLTEDD A MYNEDIAD AT WASANAETHAU

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae cynhwysiant digidol, cysylltedd a mynediad at wasanaethau yn bwysig oherwydd gall mynediad gwael at wasanaethau digidol a ffisegol arwain at oedi, rhwystredigaeth a chanlyniadau gwaeth, yn enwedig i bobl sydd angen iechyd, gofal, cyngor neu gymorth. Mae bod wedi'ch cysylltu'n ddigidol yn helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau, cyflogaeth, gwybodaeth a chymorth ariannol, ac mae cysylltedd dibynadwy hefyd yn bwysig i fusnesau ac economïau lleol. Mewn ardaloedd gwledig yn y ddwy sir, gall trafnidiaeth gyfyngedig, pellter oddi wrth wasanaethau ac allgáu digidol gynyddu unigedd a'i gwneud yn fwy anodd i drigolion gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

- Mae **natur wledig** yn ffactor sylweddol yn y ddwy sir, gyda chymunedau gwasgaredig yn profi amseroedd teithio hirach a llai o wasanaethau cyfagos.
- Mae gan Geredigion un o'r crynodiadau uchaf o **amddifadedd mynediad** yng Nghymru, ac mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn nodi Llanegwad 2 yn Sir Gaerfyrddin fel yr Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is sydd â'r **amddifadedd mynediad mwyaf yng Nghymru** yn y maes hwn.
- Mae **cysylltedd digidol** yn gwella ar draws yr ardal, ond mae'r ddarpariaeth yn parhau'n anghyson.
- Mae cymunedau **gwledig** ac anodd eu cyrraedd yn parhau i brofi cysylltedd gwannach.
- Mae sefydliadau **cymunedol a'r trydydd sector** yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi mynediad digidol a chyfranogiad.
- Mae **llyfrgelloedd, hybiau cymunedol a hyrwyddwyr digidol** yn ffynonellau cymorth allweddol i bobl sy'n cael trafferth defnyddio gwasanaethau digidol.

Beth ddywedodd cymunedau wrthym

- Ystyriwyd **cysylltiadau trafnidiaeth dibynadwy** yn hanfodol ar gyfer cael mynediad at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd, siopa a gweithgareddau cymunedol.
- Roedd **anawsterau wrth gael apwyntiadau, triniaethau a gwasanaethau arbenigol** yn bryderon cyson.
- **Cysylltwyd unigedd gwledig** ag anawsterau wrth gael cymorth, cynnal cysylltiadau cymdeithasol a chymryd rhan ym mywyd y gymuned.
- Ystyriwyd **band eang dibynadwy a chysylltedd** symudol yn fwyfwy pwysig i fywyd bob dydd.
- Nodwyd **mynediad at wasanaethau lleol** yn ffactor pwysig wrth gefnogi llesiant a gwydnwch cymunedol.

Anghydraddoldebau allweddol

- Mae allgáu digidol yn gysylltiedig ag **oedran hŷn**.
- Gall **pobl anabl** wynebu rhwystrau ychwanegol i gyfranogiad digidol a mynediad at wasanaethau.
- Gall **llythrennedd isel a diffyg hyder digidol** gyfyngu ar gyfranogiad mewn gwasanaethau sy'n fwyfwy digidol.
- Mae trigolion **cymunedau gwledig a gwasgaredig** yn aml yn wynebu amseroedd teithio hirach, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig a llai o wasanaethau wyneb yn wyneb na phobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy hygyrch.

- Gall pobl na allant **ddefnyddio gwasanaethau'n ddigidol** gael trafferth cael apwyntiadau ar-lein, presgripsiynau, budd-daliadau, gwybodaeth, gwasanaethau'r cyngor a chymorth arall, yn enwedig lle mae dewisiadau wyneb yn wyneb yn gyfyngedig.

Pwysau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Gallai **gweithio o bell a gweithio hybrid** gefnogi economïau gwledig a helpu i gadw pobl iau lle mae cysylltedd yn gryf.
- Gall y galw am **drafnidiaeth gymunedol** a dewisiadau nad ydynt yn ddigidol gynyddu.
- Mae **poblogaethau sy'n heneiddio** yn y ddwy sir yn debygol o gynyddu'r galw am gymorth digidol â chymorth a dylunio gwasanaethau hygyrch.
- Gallai **deallusrwydd artiffisial** gynyddu allgáu i bobl sydd â hyder digidol isel, cysylltedd gwael, rhwystrau iaith neu anghenion hygyrchedd.

Ein canfyddiadau allweddol ar gyfer y thema hon

Cryfderau

- Mae **cysylltedd digidol** yn gwella ar draws y ddwy sir, gan greu mwy o gyfleoedd i drigolion, cymunedau a busnesau.
- Mae **llyfrgelloedd, hybiau cymunedol a hyrwyddwyr digidol** yn darparu cymorth lleol i drigolion a allai gael trafferth defnyddio gwasanaethau'n ddigidol.
- Cefnogir **dull rhanbarthol** gan fod llawer o wasanaethau, llwybrau iechyd, rhwydweithiau trafnidiaeth a sefydliadau trydydd sector yn gweithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol.
- **Mae gan gyrff cyhoeddus gyfleoedd** i gydweithio i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch drwy gyfuniad o opsiynau digidol, dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar bapur.
- Gall **partneriaid** gyfuno data, gwybodaeth leol a phrofiad bywyd i nodi'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl o gael eu hallgáu o wasanaethau.

Heriau

- Mae **natur wledig** yn creu heriau sylweddol o ran cael mynediad at wasanaethau, gyda llawer o gymunedau'n profi amseroedd teithio hirach a llai o wasanaethau cyfagos.
- Gall **trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig** ei gwneud yn anodd i drigolion gyrraedd gwasanaethau iechyd, gofal, cyngor a chymorth.
- Mae **cysylltedd digidol** yn parhau'n anghyson, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig ac anodd eu cyrraedd.
- Gall **cost dyfeisiau, band eang a data symudol** atal rhai aelwydydd rhag defnyddio gwasanaethau digidol.

Themâu trawsbynciol

- **Iechyd a gofal:** Mae mynediad at apwyntiadau, presgripsiynau, gwasanaethau iechyd digidol a chymorth yn dibynnu ar gysylltedd ac argaeledd llwybrau gwasanaeth hygyrch.
- **Trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau:** Mae amseroedd teithio hirach, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig a chymunedau gwledig gwasgaredig yn effeithio ar allu trigolion i gyrraedd gwasanaethau a chymorth hanfodol.
- **Tlodi a chostau byw:** Gall cost dyfeisiau, band eang, data symudol a theithio effeithio ar allu pobl i gael mynediad at wasanaethau a chyfleoedd.
- **Cynhwysiant digidol:** Tuedd genedlaethol sy'n hanfodol ar gyfer mynediad gwledig at wasanaethau, gwaith ac addysg.

Cynhwysiant Digidol, Cysylltedd a Mynediad at Wasanaethau

77%



o AGEHI ar draws y rhanbarth wedi'u rhestru ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau

71 munud

yw'r amser teithio cyfartalog i gyrraedd gwasanaethau allweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus



WIMD (2025)

10 munud

yw'r amser teithio cyfartalog i gyrraedd gwasanaethau allweddol drwy ddefnyddio trafnidiaeth breifat



9.2%





o aelwydydd ar draws rhanbarth y BGC sy'n methu â derbyn band eang cyflym iawn (30 Mbit/s)

WIMD (2025)

3.5%



o safleoedd dan do lle nad oes signal 4G, o'i gymharu ag 1% yn genedlaethol

(2026)

20 %pts



cynnydd pwynt canran yn nifer y preswylwyr sy'n gweithio'n bennaf gartref neu o'r cartref ers 2011 – o 5.6% yn 2011 i 25.7% yn 2021

Mae cysylltedd digidol wedi gwella

14% aelwydydd heb fynediad i'r rhyngrwyd yn **2019**

6.5% aelwydydd heb fynediad i'r rhyngrwyd yn **2023**

30.1%



o drigolion sy'n diffygio'r sgiliau angenrheidiol i lywio'r rhyngrwyd yn effeithiol, cymryd rhan a chael mynediad at wasanaethau ar-lein

(2021-22)

84.5%



o aelwydydd sy'n berchen ar gar neu fan, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.6%

(2021)

Nodweddir y rhanbarth gan **amseroedd teithio hir**, yn enwedig ar **drafnidiaeth gyhoeddus**, i gael mynediad at wasanaethau allweddol, fel meddygfeydd, llyfrgelloedd, ysgolion a siopau bwyd. Mae hyn yn gwneud **perchen ar gar neu fan bron yn hanfodol**. Yn ddiweddar, bu **cynnydd gwirioneddol mewn cysylltedd digidol**, gyda **chyflymder band eang yn cynyddu** a **mwy o gartrefi yn cael mynediad i'r rhyngrwyd**, sy'n gadarnhaol o ystyried **y cynnydd yn y rhai sy'n gweithio gartref**. Ond, mae'r rhai sydd **heb sgiliau digidol yn dal i fodoli** sy'n gwneud hi'n hanfodol i sicrhau nad yw'r trigolion yma yn syrthio tu ôl.

THEMA 9: PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ganolog i lesiant Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn y dyfodol. Mae ffactorau megis incwm teulu, sefydlogrwydd tai, gofal plant, addysg a mynediad at wasanaethau yn dylanwadu'n sylweddol ar gyfleoedd bywyd plant a'u canlyniadau yn y dyfodol. Gall tlodi, rhwystrau trafnidiaeth a mynediad cyfyngedig at gymorth effeithio ar gyfranogiad mewn addysg, gofal iechyd a bywyd cymunedol, tra gall cymorth cynnar helpu i atal anawsterau rhag gwaethygu'n bryderon diogelu neu anghenion gofal. Mae heriau tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth hefyd yn dylanwadu ar a yw pobl ifanc yn aros yn eu cymunedau lleol, gyda goblygiadau ehangach i gynaliadwyedd cymunedol a'r Gymraeg.

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

- Mae **natur wledig** yn ffactor mawr sy'n dylanwadu ar fynediad at ofal plant, addysg, gwasanaethau iechyd, cyflogaeth, trafnidiaeth a chymorth cymunedol ar draws y ddwy sir.
- Mae **tlodi plant** a phwysau ariannol ehangach yn effeithio ar sawl agwedd ar lesiant plant.
- Mae **iechyd meddwl**, llesiant emosiynol ac anghenion cymorth heb eu diwallu ymhlith pobl ifanc yn bryderon cynyddol.
- Mae'r galw am **ddiogelu, maethu, gwasanaethau gofal** a chymorth i blant anabl yn parhau'n uchel.
- Mae **pobl ifanc** yn profi anawsterau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd tai, cyfleoedd cyflogaeth, trafnidiaeth a chysylltedd digidol.
- Gall rhwystrau o ran tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth effeithio ar allu **pobl ifanc** i aros yn eu cymunedau lleol.
- Gall **tlodi** leihau mynediad at fwyd, gwres, trafnidiaeth, cysylltedd digidol a chyfranogiad addysgol.
- Mae **natur wledig a rhwystrau trafnidiaeth** yn parhau i ddylanwadu ar fynediad at wasanaethau gofal plant.
- Mae **mynediad at ofal plant** yn parhau'n her mewn rhai cymunedau, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth ar ôl ysgol, gofal yn ystod y gwyliau, gofal diwrnod llawn a gofal i blant iau. Gall y bylchau hyn effeithio ar lesiant teuluoedd, cyfleoedd cyflogaeth a mynediad plant at gyfleoedd dysgu a chymdeithasol.
- Mae **darparwyr gofal plant** yn nodi lefelau cynyddol o oedi datblygiadol ac anghenion dysgu ychwanegol ymhlith plant ifanc, gan greu galw cynyddol am gymorth arbenigol, ymyrraeth gynnar a darpariaeth gynhwysol.
- Mae'r galw am **ddarpariaeth gofal plant** hyblyg, cofleidiol ac yn ystod y gwyliau yn fwy na'r cyflenwad mewn rhai cymunedau. Mae Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ill dau yn tynnu sylw at y **costau cynyddol sy'n gysylltiedig â gofal plant** yn y blynyddoedd diweddar, a'r heriau y mae hyn yn eu creu i deuluoedd.
- Nododd adolygiad y Pwyllgor Dethol, a gynhaliwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC), i wasanaethau ymyrryd, atal ac ymgysylltu mewn perthynas â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer oedolion ifanc rhwng 18 a 25 oed, pa mor bwysig yw darpariaeth agored i bawb o fewn **gwasanaethau atal** (fel clybiau ieuenctid) i oedolion ifanc, yn ogystal â'r angen am fwy o ddarpariaeth o'r fath ar draws yr ardal.

Beth ddywedodd cymunedau wrthym

- Nodwyd **mynediad at leoedd diogel a chroesawgar** lle gall plant a phobl ifanc dreulio amser yn flaenoriaeth.
- Ystyriwyd **mynediad at gymorth priodol** mewn lleoliadau addysgol yn bwysig er mwyn helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial.
- Ystyriwyd **datblygu sgiliau, hyder a chyflogadwyedd** o oedran cynnar yn bwysig wrth baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolion.
- Gall **cost gofal plant** roi pwysau sylweddol ar gyllid aelwydydd, a gall mynediad amrywio yn ôl lleoliad, argaeledd a chapasiti gwasanaethau.
- Nodwyd **costau byw cynyddol a phwysau ariannol** yn faterion sylweddol sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am **fwy o weithgareddau, mannau diogel a chyfleoedd** i blant a phobl ifanc gymryd rhan ym mywyd y gymuned.
- **Nodwyd cymorth iechyd meddwl, perthnasoedd dibynadwy a gwasanaethau cymorth cynnar** yn ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar lesiant.
- Pwysleisiodd teuluoedd werth ysgolion cryf, cyfleoedd chwarae, dysgu yn yr awyr agored a darpariaeth gynhwysol i blant a phobl ifanc ag **anghenion dysgu ychwanegol**.

Anghydraddoldebau allweddol

- Gall plant a theuluoedd mewn **ardaloedd gwledig** brofi mynediad gwaeth at wasanaethau, gofal plant, addysg a thrafnidiaeth.
- Mae **tlodi plant** yn creu anghydraddoldebau o ran mynediad at adnoddau hanfodol megis bwyd, gwres a chysylltedd digidol.
- Gall **pwysau ariannol** gyfyngu ar gyfranogiad mewn addysg a chyfleoedd ehangach.
- **Mae plant sydd angen cymorth ychwanegol**, gan gynnwys plant anabl a'r rhai sydd angen gwasanaethau diogelu, yn wynebu anghenion cymorth mwy.
- Mae problemau **fforddiadwyedd tai** yn creu rhwystrau i bobl ifanc sy'n ceisio aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd iddynt.
- Gall **anghenion cymorth iechyd meddwl a niwroddatblygiadol** heb eu diwallu greu canlyniadau anghyfartal i rai plant a phobl ifanc.

Pwysau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Gall **newidiadau demograffig** newid y galw am ysgolion, gwasanaethau gofal plant a darpariaeth gymunedol.
- Gall **tlodi plant** a phwysau ariannol parhaus gynyddu'r galw am wasanaethau addysg, tai, iechyd a chymorth i deuluoedd.
- Gall gweithredu'r system **Anghenion Dysgu Ychwanegol** newid sut y caiff anghenion plant eu nodi a'u cefnogi.
- Mae'r **galw am gymorth iechyd meddwl** a niwroddatblygiadol yn debygol o aros yn uchel neu gynyddu.
- Mae **mwy o gydweithio** rhwng sefydliadau yn cynnig cyfleoedd i wella canlyniadau drwy ymyrraeth gynnar a chymorth cydgysylltiedig.

Ein canfyddiadau allweddol ar gyfer y thema hon

Cryfderau

- Mae cyfleoedd cryf ar gyfer **cydweithio cydgysylltiedig** ar draws addysg, iechyd, tai, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol.
- Mae gwaith parhaus yn cefnogi **digonolrwydd gofal plant**, darpariaeth y blynyddoedd cynnar, cyflwyno Dechrau'n Deg a gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- Mae **dulliau cydweithredol** yn cefnogi recriwtio gofalwyr maeth, darpariaeth breswyl a gwasanaethau i'r rhai sy'n gadael gofal.
- Cydnabyddir bod plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn **gyfranwyr pwysig** at ddylunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.
- Nodir **cymorth cynnar** ac **atal** yn feysydd lle gall gweithio mewn partneriaeth sicrhau manteision sylweddol.

Heriau

- Mae **tlodi plant** a phwysau costau byw ehangach yn parhau i effeithio ar deuluoedd ar draws y ddwy sir.
- Mae'r **galw am gymorth iechyd meddwl** a niwroddatblygiadol yn parhau'n uchel.
- Mae **diogelu, maethu, gwasanaethau gofal** a chymorth i blant anabl yn parhau i roi pwysau ar wasanaethau.
- Mae data tameidiog ac amgylchiadau daearyddol gwahanol yn creu **heriau i weithredu cydgysylltiedig.**
- **Mae bylchau tystiolaeth yn parhau mewn** meysydd megis digonolrwydd gofal plant, anghenion iechyd meddwl, maethu, fforddiadwyedd tai a throsglwyddiadau ieuenctid.

Themâu trawsbynciol

- **Tlodi plant a phwysau ariannol:** Maent yn sail i lawer o'r heriau sy'n wynebu plant, pobl ifanc a theuluoedd, gan ddylanwadu ar fynediad at fwyd, gwres, trafnidiaeth, cysylltedd digidol, addysg a chyfleoedd ehangach.
- Mae cysylltiad cryf hefyd rhwng **tlodi a chyfraddau troseddu uwch**, tra gall **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** hefyd gynyddu'r risg y bydd pobl ifanc yn ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol a threisgar.
- **Fforddiadwyedd a sefydlogrwydd tai**: Maent yn dylanwadu ar lesiant teuluoedd ac yn effeithio ar a all pobl ifanc aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd iddynt wrth symud i fywyd fel oedolion.
- **Addysg, gofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar**: Maent yn gysylltiedig yn agos â datblygiad plant, parodrwydd ar gyfer ysgol, cyfleoedd cyflogaeth rhieni a chanlyniadau hirdymor i blant a theuluoedd.
- **Diogelu, maethu, gwasanaethau gofal a rhianta corfforaethol**: Maent yn parhau'n flaenoriaethau sylweddol, gyda galw parhaus am gymorth i blant agored i niwed, pobl ifanc â phrofiad o ofal a phlant anabl.
- **Newid amgylcheddol a demograffig yn y dyfodol**: Gall ddylanwadu ar y galw am wasanaethau, ysgolion, gofal plant a darpariaeth gymunedol, tra bo newid hinsawdd a llifogydd yn debygol o ddod yn faterion cynyddol bwysig i genedlaethau iau.

Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

GRADDAU TLODI PLANT



27.9% Ceredigion

26.1% Cymru

25.0% Sir Caerfyrddin

26.4% Ar draws rhanbarth y BGC

(2024)

69.0%



o blant ysgol gynradd wedi nodi eu **boddhad â bywyd yn 8 neu uwch**, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 68.9%

(2024)

16%



o ddisgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar draws ardal y BGC, yn is na chyfartaledd Cymru o 20.9%

(2024)

52%



o blant ysgol gynradd a adroddodd eu bod yn cael eu bwlio, yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 50.6%

(2024)

14.7%



cynnydd yn nifer yr aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg rhwng 2020-21 a 2024-25

405





plant sy'n derbyn gofal yn 2024-25, cynydd o 72.3% o 235 yn 2020-21

83.5%



o aelwydydd cymwys yn manteisio ar y cynnig gofal plant llawn neu'r cynnig gostyngol gan Dechrau'n Deg *(2024)*

50%





o gynnydd yn nifer y plant ar y Gofrestr Diogelu Plant rhwng 2020-21 a 2023-24

2,655



disgybln ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig ar draws rhanbarth y BGC

(2025-26)

Mae gan Geredigion un o'r **cyfraddau tlodi plant uchaf yng Nghymru**, sy'n golygu bod **cyfradd y rhanbarth yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol**. Mae **prydau ysgol am ddim** ac ardaloedd **Dechrau'n Deg** yn cefnogi teuluoedd a allai fod yn dioddef tlodi, gan alluogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae'r **nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal** a **phlant ar y gofrestr amddiffyn plant** yn peri risg o roi **pwysau ychwanegol ar gyrff cyhoeddus**.

THEMA 10: TLODI A CHOSTAU BYW

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae tlodi a chostau byw cynyddol yn cael effeithiau dwys ar lesiant, gan lunio iechyd, tai, addysg, cyflogaeth a gallu pobl i gymryd rhan ym mywyd y gymuned. Mae ansicrwydd ariannol yn effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau cyfan, ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus. Mae deall sut y profir tlodi ar draws Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, a sut mae'n croestorri â natur wledig, tai, trafnidiaeth a mynediad digidol, yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau a chefnogi gwydnwch hirdymor.

Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym

- Mae cyfran sylweddol o aelwydydd yn y ddwy sir yn profi **caledi ariannol**, gyda chyfraddau tlodi plant yn parhau'n bryder mewn sawl cymuned.
- Mae costau cynyddol bwyd, ynni, tai a thrafnidiaeth wedi cynyddu nifer yr aelwydydd sy'n profi **tlodi tanwydd** ac anhawster i ddiwallu anghenion sylfaenol.
- Mae natur wledig yn dwysáu costau byw, gyda **chostau trafnidiaeth uwch**, mynediad cyfyngedig at dai fforddiadwy a llai o wasanaethau lleol.
- Mae tlodi mewn gwaith yn cynyddu, gan adlewyrchu **cyflogau isel, gwaith ansicr** a chyfleoedd cyfyngedig i symud ymlaen mewn rhai sectorau.
- Mae'r **galw am wasanaethau cymorth**, gan gynnwys banciau bwyd, gwasanaethau cyngor a chymorth mewn argyfwng, wedi cynyddu'n sydyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Beth ddywedodd cymunedau wrthym

- Nodwyd **costau byw cynyddol** yn bryder sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â **bwyd, ynni, tai a thrafnidiaeth.**
- Disgrifiwyd **sicrwydd ariannol** yn aml fel elfen sylfaenol o lesiant cyffredinol ac ansawdd bywyd yn y dyfodol.
- Tynnodd ymatebwyr sylw at bryderon am **fforddiadwyedd tai, tlodi tanwydd** a **gallu pobl i aros yn eu cymunedau lleol.**
- Cydnabu cymunedau rôl bwysig **gwasanaethau cymorth lleol, mentrau bwyd a dulliau cymunedol** wrth helpu aelwydydd i ymdopi â phwysau ariannol.
- Ystyriwyd bod **natur wledig** yn cynyddu pwysau costau byw drwy gostau trafnidiaeth uwch, llai o fynediad at wasanaethau a llai o gyfleoedd lleol.

Anghydraddoldebau allweddol

- Mae plant a phobl ifanc mewn aelwydydd incwm isel yn wynebu mwy o risg o **iechyd gwael, cyrhaeddiad addysgol is** a llai o gyfleoedd bywyd.
- Mae **aelwydydd gwledig** yn aml yn wynebu costau byw uwch a llai o opsiynau cymorth lleol.
- Mae **pobl anabl, gofalwyr a phobl hŷn** ar incwm sefydlog yn arbennig o agored i gostau cynyddol.
- Mae **aelwydydd un rhiant** a phobl ifanc â phrofiad o ofal mewn mwy o berygl o dlodi parhaus.

Pwysau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Gall ansicrwydd economaidd parhaus a chostau cynyddol gynyddu'r galw am **gymorth mewn argyfwng, gwasanaethau cyngor** a chymorth cynnar.
- Gallai **gwella effeithlonrwydd ynni** cartrefi leihau tlodi tanwydd, ond mae angen buddsoddiad a chapasiti gweithlu.
- Gallai cryfhau economïau lleol, llwybrau sgiliau a chysylltiadau trafnidiaeth helpu i leihau **tlodi mewn gwaith.**
- Mae mentrau cymunedol, mentrau cymdeithasol a rhwydweithiau bwyd lleol yn cynnig cyfleoedd i feithrin gwydnwch a **lleihau dibyniaeth ar gymorth mewn argyfwng**.

Ein canfyddiadau allweddol ar gyfer y thema hon

Cryfderau

- Mae gan Sir Gaerfyrddin a Cheredigion **drydydd sectorau gweithgar iawn sydd wedi'u trefnu'n dda**, dan arweiniad Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion.

Heriau

- Mae tlodi a chostau byw cynyddol yn cael **effeithiau sylweddol ac eang** ar lesiant ar draws y ddwy sir.
- Mae natur wledig yn dwysáu pwysau ariannol, gyda chostau uwch ar gyfer **trafnidiaeth, ynni a mynediad at wasanaethau.**
- Mae **plant, pobl ifanc, pobl anabl, gofalwyr ac aelwydydd incwm isel** yn cael eu heffeithio'n anghymesur.
- Mae tlodi mewn gwaith yn cynyddu, gan adlewyrchu **cyflogau isel, gwaith ansicr** a chyfleoedd cyfyngedig i symud ymlaen.
- Mae'r **galw am wasanaethau cymorth** yn cynyddu, gan roi pwysau ar sefydliadau statudol a gwirfoddol.
- Mae mynd i'r afael â thlodi yn gofyn am **weithredu cydgysylltiedig ac ataliol** ar draws tai, trafnidiaeth, sgiliau, iechyd a chymorth cymunedol.

Themâu trawsbynciol

- **Costau byw**: Argyfwng cenedlaethol parhaus sy'n effeithio ar bob ardal yng Nghymru ac ar boblogaethau cyflog isel, gwledig a phoblogaethau sy'n heneiddio.
- **Natur wledig a mynediad at wasanaethau:** Mae'r ddwy sir yn wledig yn bennaf, gyda phoblogaethau gwasgaredig a heriau trafnidiaeth. Mae hyn yn effeithio ar fynediad at ofal iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, cyflogaeth a chyfleoedd diwylliannol.

Tlodi a Chostau Byw

TLODI YMHLITH POBL SY'N GWEITHIO YN BRYDER CYNYDDOL

1 Cyfranogiad uchel yn y gweithlu



75.5% Sir Caerfyrddin

72.0% Ceredigion

(Ebrill 2025-Mawrth 2026)

2 Enillion is na'r cyfartaledd

-£2,578 yn llai ar draws ardal y BGC

Sir Caerfyrddin	Ceredigion
-£4,106	-£1,051

(2025)

3 Aelwydydd mewn tlodi incwm cymharol



34.6% Cyfartaledd ardal y BGC

(2025)

TLODI PLANT

yn parhau i fod yn her barhaus

Dros **1 o bob 4** plentyn yn byw mewn teulu incwm isel



(2025)

FFORDDIADWYEDD TAI

Ceredigion ydy'r **5ed** Sir Caerfyrddin ydy'r **13eg**

awdurdod lleol lle mae prynu cartref yn lleiaf fforddiadwy yng Nghymru *(2025)*

AMDDIFADEDD INCWM

% o bobl sy'n derbyn budd-daliadau incwm isel sy'n dibynnu ar brawf modd:

Ceredigion:	**19.8%**
Sir Caerfyrddin:	**24.0%**

WIMD (2025)

TLODI TRAFNIDIAETH GWLEDIG

mae rhai trigolion yn teithio **ddwywaith cyhyd** i gael mynediad at wasanaethau allweddol

Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r meddyg teulu:

Ceredigion:	**97 munud**
Sir Caerfyrddin:	**65 munud**
Cymru:	**45 munud**




(2025)

TLODI TANWYDD

aelwydydd sy'n methu â chadw eu cartref yn gynnes am gost resymol

Ceredigion:	**21%**
Sir Caerfyrddin:	**14%**
Cymru:	**12%**



(2018)

AMDDIFADEDD CYFLOGAETH

15.5% pobl o oedran gweithio sydd mewn amddifadedd cyflogaeth yn ardal y BGC

WIMD (2025)

Mae tlodi a phwysau costau byw yn parhau i effeithio ar aelwydydd ar draws ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae **caledi ariannol** yn effeithio ar lawer o aelwydydd, gyda thystiolaeth bod **tlodi mewn gwaith** yn dod yn fwy cyffredin wrth i **enillion is na'r cyfartaledd** a chyflogaeth ansicr fethu â chadw i fyny â chostau cynyddol. Mae cymunedau gwledig yn wynebu heriau ychwanegol oherwydd **costau trafnidiaeth, tai ac ynni uwch** a **mynediad cyfyngedig at wasanaethau.**

THEMÂU RHANBARTHOL ALLWEDDOL

Mae'r gwaith cydweithredol rydym wedi'i wneud gyda phartneriaid rhanbarthol wrth lunio'r asesiad hwn wedi arwain at nifer o **faterion traws-ffin** neu **ranbarthol** sy'n effeithio ar **ranbarth Gorllewin Cymru** yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Grŵp Ysgrifennu, sy'n gyfrifol am gasglu data, dadansoddi ac ysgrifennu'r asesiad, wedi nodi'r **prif themâu rhanbarthol** canlynol yn seiliedig ar y data sydd ar gael, canlyniadau'r arolwg llesiant rhanbarthol, a chanfyddiadau'r digwyddiadau rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod haf 2026. Y nod yw helpu i dynnu sylw at yr **heriau cyffredin rydym yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol.**

Lles Economaidd

- CYFLOGAU ISEL A THLAWDI YM MYD GWAITH
- DIFFYGION SGILIAU A GWEITHLU
- TAI FFORDDIADWY
- GWYDNWCH ECONOMAIDD A FFYNIANT LLEOL
- NEWID HINSAWDD
- ADFER NATUR A CHOLLI BIOAMRYWIAETH

Lles Cymdeithasol

- POBLAETH SY'N HENEIDDIO
- MYNEDIAD I WASANAETHAU IECHYD A
- YNYSIGRWYDD GWLEDIG, CYSYLLTEDD A
- TLODI A CHOST BYW
- LLIFOGI AC ERYDIAD ARFORDIOL
- DEFNYDD TIR CYNALIADWY A DIOGELWCH

Lles Amgylcheddol

- CYNALIADWYEDD YR IAITH GYMRAEG
- CYDLYNIANT CYMUNEDOL A PHERTHYN

Lles Diwylliannol

- HUNANIAETH DDIWYLLIANNOL A THREFTADAETH
- CADW POBL IFANC

RHANBARTH GORLLEWIN



TUEDDIADAU'R DYFODOL A CHYSYLLTIADAU Â MEGADUEDDIADAU CENEDLAETHOL

Caiff y **Megadueddiadau Cenedlaethol** yng Nghymru eu gyrru gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n llywio cynnydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor.

Mae'r tueddiadau yn y dyfodol sy'n llunio **Sir Gaerfyrddin a Cheredigion** yn cyd-fynd yn agos â'r **Gyrwyr Newid Cenedlaethol ar gyfer Cymru**, yn enwedig o ran **hinsawdd a natur**, **newid demograffig, trawsnewid technolegol,** ac **ailstrwythuro economaidd**.

CYFLYMU TECHNOLOGECOL

Dolenni i'r tueddiadau dyfodol canlynol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion:


- Trawsnewid digidol
- Gweithio o bell a gwasanaethau digidol
- Canolfannau arloesi (e.e. Pentre Awel a Food Centre Wales)
- Cynhwysiant digidol

CYMDEITHAS SY'N HENEIDDIO

Dolenni i'r tueddiadau dyfodol canlynol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion:

- Poblogaeth sy'n heneiddio
- Prinder gweithlu
- Galw cynyddol am ofal
- Ymfudo pobl ifanc i ffwrdd

PRIF YSGOGWYR NEWID YNG



NEWID LLEOEDD

Dolenni i'r tueddiadau dyfodol canlynol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion:

- Heriau mynediad mewn ardaloedd gwledig
- Anghydraddoldebau trafnidiaeth a digidol
- Fforddiadwyedd tai

NEWIDIADAU DIWYLLIANNOL

Dolenni i'r tueddiadau dyfodol canlynol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion:

- Cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg
- Newid demograffig a mudo
- Hunaniaeth ddiwylliannol a chydlyniant

ARGYFWNG HIN A NATUR

Dolenni i'r tueddiadau dyfodol canlynol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion:

- Ehangu ynni adnewyddadwy
- Newid yn y defnydd o dir (gwynt, y grid, ffermio)
- Llifogydd ac erydiad arfordirol
- Pwysau ar fioamrywiaeth

AILSTRWYTHURO ECONOMAIDD

Dolenni i'r tueddiadau dyfodol canlynol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion:

- Pwysau ar yr economi sylfaenol
- Twf yr economi werdd
- Newidiadau mewn sgiliau ac awtomeiddio

Ar adeg cyhoeddi, nid oedd y fersiwn ddiweddaraf o'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ar gyfer 2026 wedi'i gyhoeddi. O ganlyniad, mae'r dolenni a amlygwyd uchod yn seiliedig ar yr Adroddiad presennol, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2021.

BYLCHAU MEWN DATA AC ANGHENION TYSTIOLAETH

Mae dealltwriaeth gynhwysfawr o lesiant yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn dibynnu ar argaeledd data o ansawdd uchel, amserol a pherthnasol yn lleol. Er bod yr asesiad hwn yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth feintiol ac ansoddol, **mae bylchau pwysig yn parhau** sy'n cyfyngu ar ein gallu i ddeall amodau presennol yn llawn, olrhain anghydraddoldebau, a rhagweld pwysau yn y dyfodol. Mae'r bylchau hyn yn adlewyrchu heriau gweithio mewn cymunedau gwledig a gwasgaredig, cyflymder cyflym newid cymdeithasol a thechnolegol, ac argaeledd anwastad data ar lefel ardal fach neu sirol.

Mae nodi'r bylchau hyn yn hanfodol ar gyfer **cryfhau asesiadau yn y dyfodol a gwella'r broses o wneud penderfyniadau.** Mae'n tynnu sylw at y meysydd lle mae angen casglu data newydd, rhannu gwybodaeth bresennol yn well, neu gael dealltwriaeth ansoddol ddyfnach, er mwyn llunio darlun mwy cyflawn o lesiant ar draws y ddwy sir. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif fylchau o ran data a'r anghenion tystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y broses asesu.

Thema	Bwlch yn y Data
Tueddiadau'r Dyfodol	Nid oedd yr Adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol diweddaraf ar gael adeg paratoi'r Asesiad o Lesiant Lleol. Mae ei angen er mwyn cysylltu â'r ffactorau cenedlaethol sy'n gyrru newid.
Iaith, Diwylliant a Hunaniaeth Gymreig	• Byddai modelu ar gyfer y dyfodol yn helpu i asesu effaith hirdymor tueddiadau demograffig a mudo ar gymunedau sy'n siarad Cymraeg. • Mae data ar gyfranogiad diwylliannol lleol yn gyfyngedig. • Mae angen tystiolaeth werthuso gryfach ynghylch pa mor effeithiol yw ymyriadau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. • Mae angen data mwy cynhwysfawr am y gweithlu dwyieithog ar draws gwasanaethau cyhoeddus. • Mae angen mwy o ymchwil i ddeall pam mae pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal neu'n aros ynddi. • Mae gwybodaeth gyfyngedig ar gael ynghylch trosglwyddo'r iaith rhwng cenedlaethau.

Cydlyniad a Diogelwch Cymunedol	• Mae llawer o heriau wrth rhannu data ar hyn o bryd oherwydd:
	  ○ Partneriaid yn defnyddio gwahanol systemau
	  ○ Ansicrwydd cyfreithiol a moesegol ynghylch yr hyn y gellir ei rannu
	  ○ Bylchau capasiti a sgiliau – mae llawer o bartneriaid yn brin o
	  ▪ Dadansoddwyr ymroddedig
	  ▪ Safonau ansawdd data
	  ▪ Arbenigedd technegol
	  ▪ Amser i echdynnu a pharatoi data
	• Mae'r uchod yn creu anghydbwysedd, mae rhai partneriaid yn cyfrannu data cyfoethog, mae eraill yn cyfrannu ychydig iawn, er eu bod yn dal mewnwelediadau gwerthfawr.
	• Manylion cyswllt ar gyfer targedu Ymweliadau Diogel ac Iach. Yn aml pan fydd y Gwasanaeth Tân yn derbyn data gan sefydliad arall, byddai'n fuddiol derbyn gwybodaeth gyswllt yn ogystal â gwybodaeth cyfeiriad. Byddai hyn yn caniatáu inni gysylltu â'r aelwyd yn gyntaf i drefnu ymweliadau a chynnal asesiad risg byr dros y ffôn.
	• Cysylltu data gwrthdrawiadau traffig ffordd yn well rhwng asiantaethau. Byddai o fudd i ddadansoddi gwrthdrawiadau traffig ffordd ar gyfer y gwasanaeth tân. Er enghraifft, fel bod modd cysylltu data 'Stats 19' yr heddlu â'n data ni.
	• Mae'n anodd canfod union achosion tanau gwyllt. Byddai gwelliant yn y data hwn yn helpu i wybod pa ymyriadau sydd eu hangen i leihau tanau.

Thema	Bwlch yn y Data
	• Ymchwil bellach ar effaith tanau gwyllt ar y boblogaeth o ran effeithiau iechyd a lles.
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	• Tystiolaeth gwasanaethau plant Sir Gaerfyrddin, a thystiolaeth adroddiad blynyddol mewnol. • Mae angen tystiolaeth Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant wedi'i diweddaru, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a fforddiadwyedd. • Mae angen data lleol mwy cynhwysfawr ar blant sy'n derbyn gofal, amddiffyn plant, y rhai sy'n gadael gofal a digonolrwydd maethu. • Mae angen canfyddiadau Asesiad Digonolrwydd Chwarae newydd, gan gynnwys barn plant a phobl ifanc. • Mae angen tystiolaeth well ar anghenion iechyd meddwl, llwybrau niwroddatblygiadol, amseroedd aros ac anghenion heb eu diwallu. • Mae angen setiau data iechyd a lles wedi'u diweddaru, gan gynnwys mesurau iechyd ysgol, gweithgaredd corfforol a gordewdra. • Mae angen rhagor o dystiolaeth ar ofalwyr ifanc, trawsnewidiadau ieuenctid, tueddiadau mudo, fforddiadwyedd tai a rhwystrau trafnidiaeth. • Byddai casglu mwy o dystiolaeth o brofiad byw gan blant, pobl ifanc, gofalwyr a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cryfhau'r asesiad.
Cynhwysiant Digidol, Cysylltedd a Mynediad at Wasanaethau	• Mae angen mwy o ddadansoddiad ardaloedd fach i ddangos sut mae safleoedd mynediad at wasanaethau MALlC 2025 yn berthnasol i ddangosyddion mynediad corfforol unigol a dangosyddion mynediad digidol yn y ddwy sir. • Mae angen data band eang a symudol lleol mwy cymharol, gan ddefnyddio dyddiadau, daearyddiaethau a mesurau cyson fel cyflym iawn, ffibr llawn, gigadid, band eang gweddus a darpariaeth symudol. • Mae angen tystiolaeth well ar y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth, nid yn unig argaeledd, gan gynnwys pam nad yw pobl yn uwchraddio na defnyddio'r gwasanaethau digidol sydd ar gael. • Byddai mapio cymorth digidol â chefnogaeth yn helpu i nodi pwy sy'n darparu cymorth, ble mae ar gael, pwy mae'n ei gyrraedd, a ble mae bylchau mewn capasiti neu gynaliadwyedd.
Tai a Seilwaith Lleol	• Data mwy cyfredol a chymharol am yr angen am dai ar draws y ddwy sir. • Gwybodaeth fanylach am anghenion tai fforddiadwy yn ôl cymuned a math o aelwyd. • Dadansoddiad pellach o ail gartrefi, llety gwyliau a chartrefi gwag. • Dealltwriaeth well o ansawdd tai, tlodi tanwydd a gofynion ôl-osod. • Mapio hygyrchedd trafnidiaeth wedi'i ddiweddaru ar gyfer gwasanaethau allweddol a lleoliadau cyflogaeth. • Tystiolaeth fanylach ar gapasiti seilwaith, gan gynnwys cyfleustodau a band eang. • Asesiad pellach o gyfyngiadau amgylcheddol sy'n effeithio ar ddarparu tai. • Tystiolaeth ychwanegol gan drigolion, yn enwedig pobl iau, pobl hŷn a grwpiau agored i niwed. • Dealltwriaeth well o effeithiau addasu i'r hinsawdd yn y dyfodol ar gynllunio tai a seilwaith.

CASGLIAD

Mae cwblhau'r asesiad ar y cyd hwn o lesiant lleol yn dangos gwerth clir y bartneriaeth rhwng Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Drwy gyfuno tystiolaeth, mewnwelediad a deallusrwydd lleol ar draws y ddwy sir, mae'r asesiad yn darparu dealltwriaeth gyfoethocach a mwy cynhwysfawr o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi ein galluogi i nodi blaenoriaethau cyffredin, tynnu sylw at themâu cyffredin, a chydnabod lle gall gweithredu ar y cyd gael yr effaith fwyaf.

Drwy gydol datblygiad yr Asesiad, nododd dadansoddiad o'r sail dystiolaeth a chanfyddiadau ymgysylltu fod llawer o'r materion allweddol sy'n gofyn am weithredu ar y cyd yn gyffredin ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, gan adlewyrchu set gyffredin o heriau a chyfleoedd ar draws y rhanbarth. Er bod pob sir yn cadw ei hunaniaeth unigryw a'i blaenoriaethau lleol ei hun, mae'r Asesiad wedi tynnu sylw at nifer o themâu cylchol, gan gynnwys newid demograffig, iechyd a lles, fforddiadwyedd tai, tlodi, gwydnwch hinsawdd, cynaliadwyedd economaidd, a mynediad at wasanaethau. Mae'r themâu cyffredin hyn yn darparu sail gref ar gyfer gweithredu cydlynol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol.

Mae hefyd yn cryfhau cydlyniant rhanbarthol, yn lleihau dyblygu, ac yn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau trigolion ar draws y ddwy ardal yn cael eu hadlewyrchu mewn un darlun unedig o lesiant. Mae'r bartneriaeth wedi dangos, drwy gydweithio, y gall gynhyrchu sylfaen gryfach a mwy strategol ar gyfer gwella llesiant ledled gorllewin Cymru.

Gyda'r asesiad bellach wedi'i gwblhau, bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, sydd newydd uno, yn defnyddio ei ganfyddiadau i lunio'r cynllun llesiant lleol pum mlynedd nesaf. Bydd y cynllun hwn yn trosi'r dystiolaeth a gasglwyd yn flaenoriaethau, canlyniadau a chamau gweithredu clir sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r anghenion a nodwyd ar draws y ddwy sir. Bydd y Bwrdd yn gweithio gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau i fireinio'r blaenoriaethau hyn a sicrhau eu bod yn uchelgeisiol, yn gyraeddadwy ac yn cyd-fynd â nodau lles hirdymor Cymru.

Bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar droi mewnwelediad yn effaith - datblygu ymyriadau cydweithredol sy'n cryfhau gwydnwch, yn gwella gwasanaethau ac yn gwella lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r asesiad yn nodi man cychwyn y gwaith hwn, gan ddarparu'r sylfaen dystiolaeth y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn adeiladu cynllun cyffredin, sy'n edrych ymlaen ar gyfer y rhanbarth.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion

Cysylltwch â ni
✉ Drwy e-bost:
Partnerships@ceredigion.gov.uk

Mae **fersiwn testun plaen** neu **fersiwn Hawdd ei Ddarllen** o'r ddogfen hon ar gael gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.